

ECO'R WYDDFA

RHIF 94

GORFFENNAF/AWST 1984

Pris: 20c

SEFYDLU CYMDEITHAS BRO



Sylfaenwr Cymdeithas Bro Llanberis — John Webster sy'n dangos ble bydd y ganolfan wybodaeth, a John Williams.

"Ceisio dod â phobl yn agosach at ei gilydd," yw un o brif amcanion sefydlu 'Cymdeithas Bro' yn Llanberis. Rhoddwyd y cynllun ar ei draed yn nechrau mis Mehefin gan John Webster a John Williams, y ddau o bentref Llanberis.

Cymaint yw brwdfrydedd John Webster dros y Gymdeithas fel ei fod yn barod i droi ei ystafell ffrynt ei dŷ, 66 Stryd Fawr, yn ganolfan gwybodaeth. Arwydd arall o'i sêl yw iddo fynd yr holl ffordd i Swydd Efrog yn Lloegr i brynu bws 30 sedd ail-law at wasanaeth pobl Llanberis a'r cylch. Caiff y bws ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw achlysur neu amgylchiad a fydd yn denu digon o bobl i'w lenwi. Codir tâl am y petrol a ddefnyddir a'r treuliau'n unig.


Mae John Williams, hefyd, sydd â phrofiad o weithio gyda phobl Llanberis fel arweinydd clwb ieuencid ac fel cynghorydd cymuned, yn cyd-weithio â John Webster. Mae yntau yr un mor frwd i weld y cynllun yn llwyddo ac yn datblygu i fod o gymorth gwirioneddol i unigolion anghennus yn y gymdeithas.

A pha ffordd well i lansio Cymdeithas Bro na ffair? Trefnodd y ddau John i ffair Symonds ddod i Lanberis tua chanol mis Mehefin ac roeddynt yn ddiolchgar i gyngor Arfon am roi caniatad iddynt i ddefnyddio tir y Stâd Ddiwydiannol ar lan Llyn Padarn i'r pwrpas. Rhoddwyd yr arian a dalasai'r perchnogion y ffair am y safle yng nghronfa'r Gymdeithas.

Mae'r Eco'n gefnogol iawn i'r fenter ac yn diolch i sylfaenwyr y

Gymdeithas am eu gwaith a'u gweledigaeth. Gobeithiwn y bydd pobl abl Llanberis a'r cylch yn medru rhoi cymorth ymarferol er llwyddiant y Gymdeithas ac er lles yr ardal.

ANRHYDEDDAU I WR Y CEFFYLAU GWEDD



Mr Griffith yn arddangos Bess y gaseg ddu a Chance y gaseg goch i ddarlennwyr yr Eco cyn eu harddangos i'r miloedd yn Wembley.

Eleni gŵr o fro'r Eco fydd yn cael y fraint o feirniadu'r ceffylau gwedd yn Sioe Frenhinol Lloegr, pinacle yr holl sioeau amaethyddol.

Gwahoddwyd Mr William H. Griffith, Tros-y-waun, Brynrefail gan y Gymdeithas Ceffylau Gwedd i dderbyn yr anrhydedd ar sail ei lwyddiant ysgubol fel bridwr ac fel beirniad di-gyfaddawd ond teg.

Er i Mr Griffith gael ei ddwyn i fyny gyda cheffylau gwedd, dim ond ers 1972 y mae wedi bod yn eu harddangos. Ers hynny mae ei geffylau wedi ennill iddo ddegau o wobrau. Cyrhaeddodd uchafbwynt ei yrfa fel bridwr y llynedd pan enillodd Chance ei gaseg goch Bencampwriaeth Sioe Frenhinol Lloegr. Mae lle amlwg ac arbennig i'r dystysgrif yna ymysg y gwobrau eraill gan y gŵr Mr Griffith nad oes gan yr un bridwr arall o Gymro un gyffelyb!

Ond daeth anrhydedd arall i ran Mr Griffith eleni! Bu yn Sioe Ceffyl y Flwyddyn yn Wembley ar sawl achlysur yn arddangos un ceffyl o'i eiddo ar y tro. Ond eleni am y tro cyntaf erioed dewiswyd dwy o'i

gesyg gwedd, Bess a Chance unwaith eto, i ymddangos yn y gystadleuaeth. Nid oes yr un bridwr arall, o fewn cof, wedi llwyddo i wneud hyn.

Yn ôl lleferydd ar ran Cymdeithas Ceffylau Gwedd Prydain "Mr Griffith yw un o brif fridwyr Prydain ... ac yn un sydd wedi gwneud llawer i hybu (achos) ceffylau gwedd ar hyd y blynyddoedd."

Mae ei ddau fab hynaf Llystyn a Dylan hefyd yn ymddiddori mewn ceffylau. Ceffylau neidio a hyfforddi yw dileit Llystyn a Dylan yw dyn y ceffylau gwedd.

Bu Mr Griffith yn wael ei iechyd yn ddiweddar a gorfu iddo roi'r cyfrifoldeb o arddangos y ceffylau gwedd yn nwylo Dylan a Haydn Lewis, eu cymydog. Bellach mae wedi gwella a bydd yn cadw'n brysur drwy deithio ar hyd a lled y gwledydd hyn i feirniadu mewn sioeau.

CYMORTH I'R HENOED — DIOLCH I'R PLANT



Chwarae teg i'r plant! Pan ddaw yn fater o godi arian at achos da 'does neb cystal â hwy. Yn ddiweddar casglwyd y swm anrhydeddus o £340 gan blant Ysgol Bethel i gronfa Cymorth yr Henoed. Cyflwynwyd tystysgrif i Donna, Keri, Gerallt, Emily, Mandy, Sara a David am gasglu dros £10.

ECO'R WYDDFA

RHIF 94
GORFFENNAF-AWST 1984

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhyallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug
(Caernarfon 77163)

Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn
Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithnog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd-
radog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Miss Jane Morris, 'Rallt
Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch,
Llanberis (871561)

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf

o'r wasg

AWST 30

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

AWST 21.

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

Chwilio am ddarlun cyflawn o Jennie Eirian

Annwyl Olygydd,

Gofynnwyd i mi olygu cyfrol ar
Jennie Eirian Davies i'w chyhoeddi
ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol y
Rhyl 1985.

Ar wahân i erthyglau unigol, yr
wyf yn awyddus iawn i gynnwys yn y
gyfrol unrhyw atgof neu stori ohoni
mewn Eisteddfod, ar lwyfan neu
mewn sgwrs. Os yw yn anhwylyd
anfon atgof o'r fath ar bapur,
buaswn yn falch iawn o'i recordio ar
dâp. Rwy'n chwilio am y llon a'r
lleddf ac yn awyddus i gael y darlun
mwyaf cyflawn posibl o'r fenyw
eithriadol hon.

Yr oedd Jennie Eirian hefyd yn
llythyr yn ofalus. Buaswn yn
gwerthfawrogi unrhyw lythyr o'i
heiddo a fedrai fod o ddiddordeb.

Yn ddiolchgar,

Gwyn Erfyl.

Pen-y-garth,
St. Meugan,
Rhuthun,
Clwyd.

(Ffôn: Rhuthun 2236)

TWRISTIAETH – 'ECONOMI FFUG'

Annwyl Olygydd,

Ychydig amser yn ôl cynhaliodd
Cyngor Arfon wledd ar gyfer y
swyddogion a'r cynghorwyr, ac fe
gafodd Wyn Roberts wadd yno
hefyd ar ran y llywodraeth.
Achubodd y cyfle i gyflwyno'u
syniadau hwy ar gyfer dyfodol ardal
Llanberis; sef twristiaeth, a mwy o
dwristiaeth.

Waeth am weddill y wledd, daeth
yn berffaith amlwg adeg trafod
syniadau Prif Swyddog Cynllunio
Arfon ynglŷn â 'datblygu'
Glynrhonwy fod rhan helaeth o'r
Cyngor bellach wedi meddwi
cymaint ar eiriau Wyn Roberts (ac
eraill) fel eu bod nhw rwan yn gaeth
eu meddyliau i'r fasnach ymwelwyr.
Wedi cael blas ar yr addewidion,
welwch nhw ddim ond twristiaeth,
tydyn nhw'm eisiau dim ond
twristiaeth, ac ymlaen â'r sbri.

Mae'r arwyddion fod y Cyngor yn
gaeth i'r cyffur hwn wedi bod yn
amlwg ers peth amser serch hynny.
Cynlluniau mawrion ar gyfer
'marinau' ym Mangor, Y Felinheli a
Chaernarfon; 'canolfan twristiaeth'
yn Llandygai; 'pentrefi gwyliau' yn
Llanllechid a'r Faenol; a rhan, pob
mathau o ryfeddodau ar gyfer
Llanberis. Mae'n amlwg fod y
Cyngor wedi'i yrru at y botal gan
anobaith llwyr ynghylch dyfodol yr
ardal yn wyneb ei dirywiad, ac
anwybodaeth ynghylch effeithiau
gorddatblygiad twristiaeth. Rhydd i
bawb ei freuddwydion, ond y drwg
yw fod y Cyngor yn gyfrifol am
ddyfodol bro, lles cymunedau, a
bywydau pobol. Ac mae'r Cyngor
yn chwil.

O ganlyniad, mae'r Cyngor
wrthi'n creu economi ffug; yn
meddwl y medar twristiaeth Seisnig
gym'yd lle'r hen ddiwydiannau fel
cyflogwyr i'r Cymry. Ond fedar hi
ddim; dim ond ychydig weithwyr
sy'i hangen arni, a'r rheiny'n swyddi

mor wael, bron na fuasai rhywun yn
well ei fyd ar y dŵl. Ar y dŵl fydd y
rhan fwyaf ohonom ni beth bynnag,
gan fod gallu twristiaeth i gyflogi
mor wan, a'i bod hi'n rhwystro
diwydiannau eraill rhag datblygu'n
lleol (rhag iddyn nhw ddifetha'r
olygfa). Felly mae'r Cyngor yn
dedfrydu'n cymunedau Cymreig i
farwolaeth. Caiff rhai sgubo lloriau,
eraill olchi byrddau; am y gweddill
mawr, neges y Cyngor inni yw
"Pydrwch, neu ewch o'ma".

Does 'na'm rhaid i hyn ddigwydd;
gellir defnyddio safleoedd ac
adnoddau ar gyfer ceisio hybu
diwydiant addas – rhywbeth i roi'r
gallu inni gynnal ein hunain, gan
nad ydi pobol Arfon ddim yn dwp
nac yn analluog na'n ddiog. Ond i
lwyddo, rhaid wrth wybodaeth,
hyder, a'r ewyllys i barhau'n
gymunedau byw. Os nad yw'r
Cyngor yn barod i sobri, ac i
wynebu'i gyfrifoldebau tuag atom,
yna mae'n rhaid inni oll roi ar ddeall
iddo be' 'di'n barn ni ynghylch eu
cynlluniau gweigion. Dowch inni
ddeud wrth y cynghorwyr a'r
swyddogion, "Rhowch inni waith,
nid cardod; neu gwnewch le i'ch
gwell."

Yr eiddoch yn ddiffuant,

Howard Huws

Llefarydd Mudiad Adfer ar Waith a
Datblygu.

26 Pen y Ffridd,

Penrhos,

Bangor.

Llythyr Agored i holl ddarllenwyr papurau bro

Annwyl gyfeillion,

Y mae eisoes yn hysbys i ddarllenwyr
'Eco'r Wyddfa' (a hefyd i ddarllenwyr
'Y Goleuad' a'r 'Cymro') fod apêl wedi
ei lansio am arian at brynu hen gapel
Pontrobert a bod pwyllgor lleol ar flaen
yr ymgyrch. Ymddengys rhai llythyrâu
i'r wasg (e.e. un i'r 'Goleuad' o dan y
teitl 'Brics a Mortar') nad yw rhai wedi
deall nad 'capel' o eiddo'r Eglwys
Bresbyteraidd Gymraeg yw hen gapel
John Hughes ac Ann Griffiths, ond
eiddo preifat, a hynny ers blyneddodedd.
Ni fu'n bosibl, ysywaeth, i'r perchennog
presennol fyw yn yr adeilad, a dirywio'n
enbyd fu hanes y lle, erbyn hyn y mae'r
perchennog wedi penderfynu ei werthu
ac wedi rhoi'r cyfle cyntaf i bobl yr ardal
ac i Gymru gyfan ei brynu. Oni wnelont
hyn bydd yr Hen Gapel yn mynd ar
ocsiwn a phwy a wyr pwy a'i pryn
wedyn?

Y mae gennyf gryn gydymdeimlad â'r
rhai sy'n dweud am gapeli at ei gilydd
yng Nghymru heddiw mai 'baich o
gerrig' ydynt ac yn sicr y mae mawr
angen cau a dymchwel rhai ohonynt ac
i'r cynulleidfaoedd prin ddod at ei gilydd
yng ngwir ysbryd y cymod i weddio, i
seiadu ac i addoli gyda'i gilydd yn yr
adeilad mwyaf cymwys yn eu pentref
neu dref, ond nid 'capel' cyffredin mo
Hen Gapel John Hughes, Pontrobert fel
y gwyr unrhyw un sy'n ymdeimlo ag
ysbryd ac anian Ann Griffiths.

Dyma ichwi adeilad sydd yn gapel a
thŷ gyda'i gilydd i ddechrau, ac y mae i
hynny arwyddocad simbolaidd pwysig.
Nid rhywbeth i'r Sul yn unig oedd
crefydd John Hughes ac Ann Griffiths:
yr oedd eu Cristionogaeth yn rhan o'u
bywyd bob dydd ac nid oedd
gwahaniaeth rhwng y 'lle' yr oedd John
Hughes yn trigo ynddo a'r 'lle' yr oedd
yn addoli ynddo, ac yn sicr ddigon bu
Ann Griffiths mor gartrefol yn ei dŷ ag

yr oedd yn y capel.

Trwy Gymru heddiw y mae 'tai cwrdd'
yn codi a hynny oherwydd dyheadau
dwfn ysbrydol am seiadu ac addoli.
Mae'n naturiol ddigon nad mewn
'capeli' ac 'eglwysi' gyda'u seddi caled
mewn rhesi ansymudadwy y lleolir y
rhain ond yn hytrach mewn tai pobl ac
ambell dro mewn lolfâ rhyw goleg
preswyl yma a thraw o bryd i'w gilydd.
Yma, gellir eistedd mewn cylch ac
edrych ar ein gilydd a rhannu profiadau
a chyd-weddio. Dyma batrwm seiadu ac
addoli a chanu mawl y dyfodol, nid
gwrando ar y 'pregethau tân'. Rhaid i ni
felly fod yn barod i dderbyn i newid
sylfaenol hwn yn ein patrwm o
ddefosiwn a chael gafael ar yr hyn sydd
dda yng ngolwg Duw ein tad cariadlon.
Rhaid inni fod yn barod i adael ein
gafael ar y cyfarwydd os yw hynny'n
llesteirio amcanion Duw. Ond nid cau
neu ddymchwel capel yw'r ateb bob tro;
y mae hynny'n dibynnu'n gyfan gwbl ar y
bobl sydd ynddo. Cefais y fraint o ddod
ar draws capel bach ym mherfeddion
gwlad hyfryd Morgannwg lle y mae'r
mynychwyr, er nad yn bobl ifainc, yn
frwdfrydig dros y math newydd hwn – os
'newydd' hefyd – o gynnal oedfa a'm
mrant i fydd mynd yno yn yr hydref i'w
tywys. Digon gwir nad rhesi o seddi
caled yw'r eisteddfa ddelfrydol, ond
gyda'r ewyllys cywir gallwn hyd yn oed
ddygyddio â hynny.

Ond i ddod yn ôl at Hen Gapel John
Hughes, Pontrobert ... onid yw'n gyfle
godidog a bendigedig i gysylltu'r
gorffennol, y presennol a'r dyfodol a
hynny ym mhresenoldeb ysbryd yr
hynod John Hughes, y danbaid
fendigaid Ann a'r Ysbryd Glân ei hun yr
hwn sydd yn tywallt arnom ei fendith y
Pentecost hwn fel erioed ond inni gredu
ynddo?

Erfyniaf arnoch yn daer felly i ymateb
yng ngwir ysbryd cymod a thangnefedd a
brawdoliaeth Crist i roddi gymaint ag y
gallwch tuat at adnewyddu'r fangre hon
a'i thro'i'n ganolfan seiadu, addoli, canu
mawl, myfyrdod a gweddi a fydd yn
dystiolaeth weladwy i'r wir ddiwygiad
sydd ar gerdded yng Nghymru heddiw,
diwygiad lle nad yw'r 'pulpud' yn
berthnasol bellach, ond nid yn angof,
serch hynny.

Yn rhwymau cariad a thangnefedd,
Nia Rhosier.

Byddai rhai sydd â'u
henwau isod yn falch o dderbyn
unrhyw rodd boed fach neu fawr.
Y Parch O.G. Williams, Tegfryn,
Foel, Trallwng, Powys.
Mr Trefor Owen, Glasfryn,
Brookfield Road, Trallwng.
Mr Huw Ellis, Bryn Elen,
Cyfronydd, Trallwng, Powys.
Mrs Beryl Vaughan, Sychdyn,
Llanerfyl, Trallwng, Powys.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

STORFA

Mace

John a Roberta

Griffith

Sgwâr

Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael o fwydydd,
llysiau a diodydd

Archebion at eich drws
Ffilmiau fideo £1 y noson

COED Y CYRNANT

Lawer o flynyddoedd yn ôl, yng nghyngerdd Nadolig Ysgol y Waun, yr oeddym yn canu yn berffaith hapus, 'Mae Pont y Cynnant yn syrthio i lawr' ar y diwn *London Bridge is falling down*. Wnaeth hi ddim. Ond heddiw mae yna alanast yng Nghoed y Cynnant, ac mae'r coed yn cael eu torri.

Mae gennyf gofnod fel hyn am y Bont:

Articles dated Oct 1st 1776
£195

between David Parry of
Carnarvon — Limeburner
Thomas Roberts of Carnarvon
— Mason

Lewis Ellis Pont y Saint
and Richard Thomas Carnarvon
Esquire.

"make good repair, widen,
rebuild the said bridge in a good
firm strong substantial and
workmanlike manner,"

"the bridge shall consist of 4
arches, the two old arches to be
widened at least 8 feet so that
each may be fully 18 feet wide.
Penalty £390, guarantee for 7
years."

Wrth wneud amcangyfridi o'r
cylchoedd yn y bonion a
dorrwyd, a'r rheini yn ddigon
blêr, mae'r coed mawr rhwng
dau a dau gant a hanner oed
(1730). Yr oedd Coed y
Cynnant yn goedwig ifanc pan
godwyd y bont. Coedwig o
dderw yn cysgodi haen o gelyn a
gwyddfid, a charped o weiriau,
mwsog, rhedyn, bwtyas y gog a
blodau'r gwynt sydd yna. Yma
yr oedd cadarnle y wiwer goch, a
heddiw y lwyd sydd yma.

Bu'r coed yn dystion distaw i
fywyd y Waun am dros ddau gan
mlynedd. Yn 1745, a'r coed yn
fychan, mae Syr John Wynn,
Glynllifon, yn cael hawl i chwilio
am fwynau mewn wyth plwyf yn
Sir Gaernarfon. Yr oedd
Cefndu yn un o'r lleoedd hyn.
Yn 1770 ganwyd John Evans yn
Gwredog Ucha wrth ymyl y
Coed. Symudodd y teulu i
Hafod Olau, ac oddi yno yn
1792 yr aeth John Evans i
lannau Missouri i chwilio am
lwyth o Indiaid a siaradai
Gymraeg — a'r coed erbyn hyn
rhyw ddeg troedfedd o daldra ac
yn dal i dyfu.

Yn 1860 cafodd y
cyfoethogion ddeddfau i'w

cynorthwyo i gau tiroedd wast
plwyf Llanbeblig (Waun), ac yn
1848, pan oedd y coed yn gant
oed, mae Richard Jones, Caer
Ludd yn sôn am y Waun, "yn ôl
y Proffeswr Rhys, dyma lle y
siaredir y Gymraeg puraf yng
Nghymru" — prin fod hyn yn wir
yn 1984.

Erbyn 1900 mae Dafydd
Tomas, Tai Isa yn sôn am ei daid
a'i nain, ac yn sôn am y mân
bentrefi ar ymylon corsdir y
Waun — Hafod Olau, Pentra
Waun, Bryn Pistyll, Tai Isa, Ty
Ucha'r ffordd. A thua'r un adeg
mae'r trêr bach yn ymlwybro
heibio o Dinas i Feddgelert (ac
yn ddiweddarach i
Borthmadog). Mae'r coed rwan
yn dalgryf. Codwyd y teras tua
1860, a'r stadau tai cyngor
rhwng 1933-1974 a'r coed yn
dal i dyfu. Ac erbyn hyn, yn
1984, yn anferth — ond mae
coeden dderw yn medru byw am
500 mlynedd. Yn anterth eu
tyfiant maent yn syrthio i'r
llawr, tystion o'n gorffennol a'n
cyndeidiau.

M.V.J.

MALURIO COEDWIG



RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu
rhoddion tuag at gostau
cynhyrchu'r Eco:

£5.00 — Mrs Nancy Jones, 21 Stryd
Newton, Llanberis; I. Roberts,
Stryd Newton, Llanberis.

£2.50 — Mr a Mrs M. Parry,
Peterborough, Canada; Mrs M.
Byrne, Aberhonddu; Mr a Mrs H.T.
Lewis, Ermington, N.S.W.,
Awstralia; Di-enw.

£2.00 — Mr a Mrs O. Jones, Talwrn;
Mrs K. Lewis, 7 Maes Gwylfa,
Deiniolen; Mr a Mrs A. Roberts,
Stryd Goodman, Llanberis; Doreen
Ward, Llanberis.

£1.50 — Mr M. Owen, Lewisham,
Llundain.

£1.00 — Aeron Maldwyn Jones, 14
Rhes Marian, Deiniolen; Mr a Mrs
T. Roberts, Arwel, Pontrhyallt.

DRAENOG



DIM RHYFEDD FOD Y POST YN
HWYR

Dyn llefrith, un bore, yn cyfarfod â'r
postman wrth giât un o dai

diarffordd y fro. Gan fod y postman
ar gychwyn gyda llythyrau i'r tŷ,
gwelodd y dyn llefrith gyfle i arbed
siwrnai iddo'i hun a gofynnodd iddo
a fuasai mor garedig â mynd â pheint
o lefrith yno hefyd. Cyfunwyd. Ond —
ni chyrhaeddodd y peint ben ei daith!
Datgelwyd y gyfrinach rai dyddiau yn
ddiweddarach pan gyfaddefodd y
postman iddo yfed y llefrith!

TLWS ECO'R WYDDFA CYSTADLEUAETH BÊL-DROED 6-bob-ochr

Nos Fercher, Gorffennaf 4 5.30
Cae Pêl-droed Ysgol Gynradd Llanrug

Mae'r gystadleuaeth yn gyfyngedig i blant ysgolion
cynradd Bro'r Eco.

Gellir anfon dau dîm o'r un pentref

Os am gystadlu cysyllter ag Edward Elias, Gwen-y-wawr,
Llanrug (Ffôn 3719)

DEINIOLEN


C Gwasanaeth 24 awr —
A unrhyw bellter
B Eich rhedeg i'r Maes
S Awyr neu'r Porthladd
Bws Mini 12 Sedd

Ffôn: Llanberis

871591

J.M. WILLIAMS, 12 TAI FAENOL

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

LLANBERIS

CASGLIAD: Dymuna swyddogion eglwys Capel Coch ddiolch i bawb a fu'n cyfrannu mor hael i'r casgliad Cymorth Cristionogol. Derbyniwyd y swm anrhydeddus o £80.

LLONGYFARCHIADAU: Wedi hir ddisgwyl i fod yn nain a thaid daeth y newyddion da i Nelli a Bob Calvert, Henryd, Stryd Olgra fod eu hunig fab, Eric, a'i briod Janet wedi cael plentyn bach, geneth fach dlos. Llongyfarchiadau i'r teulu, yn enwedig i nain a taid.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd y cyfarfod misol o Sefydliad y Merched yn y Ganolfan dan lywyddiaeth Mrs Hannah Jones. Mwynhawyd araith ddifyr iawn gan Gwilym Charles Williams, un o fechgyn yr ardal, am y gwaith a wneir gan Gymdeithas y Deillion yng Ngogledd Cymru.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan Mrs Annie Ceridwen Jones, a Mrs Netta Jones, Hirfron.

CYMANFA BREGETHU: Ar yr ail Sul o Fehefin cynhaliodd yr Annibynwyr eu Cymanfa Bregethu Flynyddol yn Nant Padarn. Y pregethwr gwadd oedd y Parch D. Stanley Owen, BSc., BA., Cricieth. Mwynhawyd y genadwri y bore a'r hwyr gan gynrychiolaeth o'r Annibynwyr a'r aelodau o Capel Coch.

UNDEB Y MAMAU: Ar wythnos gyntaf o Fehefin cyfarfu aelodau o Undeb y Mamau eglwys Sant Peris a Sant Padarn dan arweiniad Mrs Betty Humphreys. Mwynhawyd araith ddifyr iawn gan un o'r aelodau sef Mrs Nellie Roberts, Nant Peris. Ei thestun oedd yr hen Seintiau Cymreig a datblygiad Cristionogaeth yn y dyddiau cynnar. Diolchwyd iddi gan y llywydd. Cydymdeimlwyd â dwy o'r aelodau ar eu profedigaeth sydyn - Mrs Arthur Jones a Mrs Beryl Jones.

Rhodddwyd y gwpaned te gan aelodau a swyddogion Undeb y Mamau. Cynhelir y cyfarfod nesaf, sef Cyfarfod Gorffennaf yn Eglwys Sant Peris, Nant Peris.

PENODIAD: Estynnir llongyfarchiadau i leuan, mab Mrs Mair Lloyd Roberts a'r diweddar Bob Lloyd Roberts, Stryd Warden ar ei benodiad yn brifathro yn Ysgol Heol Gaer, Fflint. Ar hyn o bryd mae'n brifathro Ysgol Gronant, Dyffryn Clwyd. Un o ddisgyblion Ysgol Dolbadarn ac Ysgol Brynrefail yw leuan.

MARWOLAETH CYNGHORYDD: Ddechrau'r mis bu farw yn Ysbyty Môn ac Arfon, y Cyngorydd John Gwynedd Jones, Penrhyn Mawr, Rhos-y-bol, Sir Fôn. Un o fechgyn yr ardal ydoedd y Cyngorydd ac wedi colli ei rieni symud a phriodi yn Sir Fôn. Ffermwr ydoedd, ond yn dra

gweithgar gyda materion yr Ynys, a llywodraeth leol. Ef oedd Maer cyntaf Sir Fôn a derbyniodd yr anrhydedd o O.B.E. am ei weithgarwch. Cofiwn yn dda amdano'n byw gyda'i rieni yn Stryd Ffynnon, ac yn weithgar gyda'r Methodistiaid tra buont yma. Cydymdeimlir â'i weddw a'i ddau fab, a'r ychydig aelodau o'r teulu sydd yn yr ardal o hyd.

MARWOLAETHAU: Ar Fehefin 4 tra ar ei wyliau gyda'i briod yng nghartref ei chwaer Jennie Jones, 10 Stryd y Ffynnon bu farw yn frawychus o sydyn, Morris Ifor Jones (Moi Pylla Dŵr) yn 66 oed. Magwyd ef a'i dri brawd ac un chwaer ym Mhylla Dŵr, ac wedi gadael yr ysgol aeth gyda'i dad a'i frodyr i'r chwarel. Gadawodd y chwarel a'r ardal a symud gydag amryw eraill o Gymry i Corby, ac yna oddi yno i Rosehill, Wrecsam lle'r oedd eu hunig ferch wedi cartrefu. Bachgen dymunol eithriadol ydoedd, yn dawel a chymwynasgar ac yn boblogaidd ymysg ei gydweithwyr. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'i briod Sydney, hithau wedi hanu o'r ardal yma ac yn fawr ei pharch gan bawb. Trefnwyd yr angladd ar Fehefin 7 gyda gwasanaeth preifat yng nghartref ei chwaer a gwasanaethwyd yn y tŷ ac yn yr Amlogsga gan y Parchn Trevor Lewis a P. De La Haye.

CYNGERDD: Yn Eglwys Sant Padarn, nos Sul Mehefin 17 trefnwyd cyngerdd gan Gantorion Llanberis, a'r unawdwyr gwadd oedd, Robert Wynne Roberts, Julie Wynne, Aled Jones ac Andrew Goodwin wrth yr organ. Mwynhawyd noson o ganu o radd uchel iawn.

CYDYMDEIMLIAD: Merch o'r Almaen a briododd, mab Mrs Elza Williams, Stryd y Ffynnon a gwnaeth ei gartref yn Stryd Lanci. Yr wythnos ddiwethaf daeth y newydd trist i Mrs Williams am farwolaeth ei mam yn Essen, Germany. Cydymdeimlir â hi a'r teulu yn eu colled.

GWAELEDD: Mae nifer o'r ardalwyr yn dal i gwyno yn o arw - rhai gartref a rhai yn yr ysbyty. Dymunir adferiad llwyr yn fuan iawn iddynt oll: Yn ysbyty Môn ac Arfon y mae Mrs Gwyneth Roberts, Stryd Newton, wedi disgyn ar y ffordd gartref a thorri ei choes. Yn ysbyty Bryn Seiont y mae Griffith Owen, Maes Padarn (Bryn Berw gynt). Wedi dychwelyd gartref y mae Maggie Price, Stryd Siarlot. Aeth i aros ychydig ar ôl gadael yr ysbyty i Lanrwst at ei merch Ruby, ond nawr y mae gartref a'i phriod yn gofalu amdani.

Gartref hefyd y mae Mrs Nell Jones, Pentre Castell.

DIOLCH: Dymuna Joan a Dafydd, 1

Stryd Tomos ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau am y caredigrwydd tuag at Llun, tra fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

CYLCH MEITHRIN: Daeth Cylch Meithrin Llanberis yn drydydd mewn cystadleuaeth ac arddangosfa a gynhaliwyd yn y llyfrgell yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Thema'r gystadleuaeth oedd 'Collage' o "Blant y Byd". Trefnwyd gan Fudiad Ysgolion Meithrin Arfon.

DIOLCH: Dymuna teulu'r diweddar Mr Arthur Jones, Bryn Bella, 21 Stryd Newton ddiolch o galon am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth lem. Diolch hefyd am y llu cardiau a'r llythyrau sydd yn rhy niferus i'w hateb. Bydd cyfanswm eich rhoddion o £350 yn cael ei roddi at Uned y Galon, ac at uned fechan Arennau a fwriedir ei hagog yn y dyfodol agos yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

DIOLCH: Dymuna Doreen Ward ddiolch yn fawr i bawb am eu dymuniadau da a'r caredigrwydd a dderbyniodd ar ei hymddeoliad ac hefyd am y cyfeillgarwch ar hyd y blynyddoedd.

DIOLCH: Fe hoffem ddiolch yn eich papur bro 'Eco'r Wyddfa' ar ran rhieni o Rachub a Llanllechid, Bethesda i Nyrs Glenys Parry ac athrawes Mrs Vera Griffiths am gymryd rhan mewn taith gerdded tuag at offer scanu i Ysbyty Alder Hey, Lerpwl nos Wener Mehefin 16. Mae ein diolch yn fawr iddynt.

- Dymuna Anne ac Alun Roberts, 22 Stryd Goodman ddiolch i'w perthnasau a'u ffrindiau am y caredigrwydd tuag at Rheon pan dorrodd ei goes.

LLONGYFARCHIADAU: i Nia Gwyn Griffith a Siân Gwyn Griffith am ennill eu medalau aur yn nofio. Da iawn chwi genod. Daliwch ati.

LLONGYFARCHIADAU: Dyna yw ein dymuniad i Anwen Owen, merch Nan ac Ernest Owen, 8 Rhes Efrog am ennill gradd BEd. Bu Anwen yn dilyn cwrs hyfforddi yn y Coleg Normal Bangor. Ein dymuniadau gorau iddi yn y dyfodol.

Ein llongyfarchiadau hefyd i Gareth Jones, Angorfa, Coed y Glyn ar ei briodas yn ddiweddar ag Alwen Jones o Rosisaf. Priodas ddedwydd ichi Gareth ac Alwen.

Ein llongyfarchiadau i Karen Pitts, 24 Dôl Elidir ar enedigaeth merch fach.

YN YR YSBYTY: Dyna yw hanes Sioned Wyn, merch Gwyneth ac Eifion Roberts, Eryri House. Cipwyd Sioned i Ysbyty Môn ac Arfon i gael ei 'phendics allan. Adferiad buan iti Sioned.

AC ADREF O'R YSBYTY: Balch ydym o ddeall fod Mrs Ivor Evans, 48 Maes Padarn wedi dychwelyd adref.

AGOR ARDDANGOSFA



Mr Selyf N. Hughes, Cadeirydd Cyngor Cymdeithas Llanberis yn agor Arddangosfa Ffotograffi Ffederasiwn Gogledd Cymru yn Oriel Eryri.

MARWOLAETHAU: Trist oedd clywed am farwolaeth dau o gyn-frodorion Llanberis yr wythnosau olaf yma. Bu farw'r ddau ar yr un dyddiad - Mehefin 17. Ymfudodd Leslie Enefer, gynt o Victoria Villa a'i deulu i Swydd Caerloyw i fyw tua deng mlynedd ar hugain yn ôl. Yno y bu farw ei briod, May. Ein cydymdeimlad dwysaf â Josephine ei ferch.

Yn Ysbyty Gobowen bu farw Idwal Llewelyn Hughes ar ôl damwain. Yn Fron Heulog yr arferai fyw, ond wedi priodi ym gartrefodd yn Wolverhampton. Gedy weddw a mab a merch. Ein cydymdeimlad â'i deulu i gyd.

Y CLWB PÊL-DROED: Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus Blynnyddol y Clwb yn Angorfa nos Fawrth, Gorffennaf 10 am 7.30. Taer erfynnir am gefnogaeth y pentrefwyr i'r cyfarfod, pryd y trafodir materion tyngedfennol yn hanes y Clwb. Deillir ei fod yn mynd ymlaen i bwrcasu'r cae pêl-droed, ond am fwy o fanylion ewch i'r cyfarfod pwysig hwn.

RAFFL YSGOL DOLBADARN:

Enillwyr -

1. £10, Ken Sellars; 2. Llun, Gareth Tân Clwb Rygbi Caernarfon; 3. Chwisgi, Noel Lewis; 4. Sherri, Mrs G. Parry, 8 Turner St., Llanberis; 5. Glo, Mrs Jean Thomas, Coedwig, St. David's Rd., C'fon; 6. Glo, Iorwerth, 12 Pant Du, Llanberis; 7. £25, Siân Lyn Griffiths, Gwelfryn, East Twil, C'fon; 8. Wyau, S.P. Summers, Rhos Arfon, Rhostryfan; 9. Scotch Liquer, Wenna, Palace St., C'fon; 10. £5, Sue Green, 17 Uwch-y-dre, Corwen; 11. Siocled, Ellen Vaughan, Pennant, Groeslon; 12. Record hir, Iorwerth Prydderch; 13. Gwydrau yfed, Norah Parry, 7 Maes Padarn, Llanberis; 14. Cruet, Gwen, Gwyndy, Deiniolen; 15. £15, Fess;

CARNIFAL LLANBERIS 1984

CYSTADLEUAETH AGORED I MAJORETTES A BANDIAU JAZZ

Carwn estyn gwahoddiad i ddawnsuwr Majorettes a Bandiau Jazz i Garnifal Llanberis, Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 21.

Beirnedir y Majorettes a'r Bandiau Jazz mewn cylch arbennig ar gae'r Carnifal. Bydd gwobrau ariannol i dri safon y Majorettes sef: Hŷn, lau a Babanod, a gwobr ariannol i'r Band Jazz gorau.

CYSTADLEUAETH AGORED I FRENINESAU, A'R MODUR BRENHINES SYDD WEDI EI ADDURNO ORAU.

Estynnwn wahoddiad i freninesau y broydd i gystadlu am dlws.

Bydd lluniaeth yn rhad ac am ddim i'r Majorettes, Bandiau Jazz a'r Breninesau ar gae'r Carnifal.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â Mrs M.W. Jones, 2 Llainwen Isaf, Llanberis, Gwynedd LL55 4LG. Ffôn: Llanberis 870190.

Bistro

**45 Stryd Fawr
LLANBERIS**

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro

LLANBERIS (parhad)

16. Oen, Auntie Jan, 9 Water St., Llanberis; 17. £20, Iorwerth Barbar; 18. Siocled, Julie Baylis, Anfield, Llanberis, 19. Hamper, Ann Ellis, Rhyd, 25 Llys Gwyn, C'fon. Gwnaeth elw o £405.

Dymuna'r prifathro a'r staff ddiolch o galon am bob cefnogaeth a diolch i Miss Marion Davies am drefnu'r raffl.

CLWB YR HENOED: Mae aelodau o Bwyllgor Clwb yr Henoed a chyfeillion tu allan i'r pwyllgor yn dal yn ffyddlon i gludo'r 'Prydau Parod' (Meals on Wheels) i'r pensiynwyr sydd yn cael y prydau yma. Mae ychydig arian i'w gael i'r rhai sydd yn rhoi eu modur i'r gwaith, ond cyflwynodd yr ysgrifennydd, Miss Ann Jones, y cyfrifon o 4 Hydref 1983 i Fawrth 1984 a dengys fod y cyfeillion sy'n cario'r bwyd o gwmpas wedi cyflwyno eu taliadau

at dreuliau Clwb yr Henoed. Derbyniwyd y swm o £27.21.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cynllun.

YR ECO DRWY'R POST

Tybed faint ohonoch sydd â pherthynas neu ffrind yn byw y tu allan i'r fro hon fyddai'n hoffi derbyn Eco'r Wyddfa'n fisol drwy'r post? Y pris, am flwyddyn o gysylltiad â'r hen fro, yw £4.50 i unrhyw un sy'n byw o fewn Gwledydd Prydain.

Cysylltwch rhag blaen ag unrhyw un o swyddogion y papur. Mae rhestr o'u henwau ar dudalen 2.

CEFNOGWCH
EIN HYSBYSEBWYR

ROEDD HWN YN UWCH Y DIWRNOD O'R BLAEN!



... ac roedd arwydd arno yn rhybuddio pobl rhag hwylio a nofio mewn rhannau o Lyn Padarn. Mae'n amlwg fod 14 arwydd o'r fath a osodwyd yn y Glyn gan Gyngor Arfon wedi eu llifio. Byth ers pan gyhoeddodd y perchnogion eu bwriadau ar gyfer rheoli'r defnydd a wneir o'u llyn mae llawer o ddrwg deimlad wedi datblygu ymysg y defnyddwyr sy'n amharod i ildio i unrhyw gyfyngau ar eu gweithgareddau. Bwriadau Cyngor Arfon roi'r arwyddion yn ôl gan ddefnyddio pyst metel y tro hwn.

AM FFENESTRI
DRYSAU
GRISIAU

neu unrhyw fath
o gynnyrch coed
ffoniwch

BRYN

LLANBERIS 870793

B & K WILLIAMS
TANRALLT
CWM-Y-GLO

Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

CARNIFAL LLANBERIS

★★★★★★★★★★★★★★★★

Nos Sul Gorffennaf 15

NOSON O GÂN

Capel Nant Padarn am 8.00 o'r gloch
CÔR MEIBION BETWS YN RHOS, ABERGELE
Arweinydd – Mr Trebor Lloyd Evans
Organydd – Mr Hugh Peris Pritchard
Mynediad a rhaglen – 50c

Nos Lun Gorffennaf 16

GYRFA CHWIST

Y Ganolfan am 7.30 o'r gloch

PŴL – GÊM DERFYNOL

Clwb British Legion am 8.00 o'r gloch

Nos Fawrth Gorffennaf 17

MABOLGAMPAU

Dôl y Goeden am 5.45 o'r gloch

Nos Fercher Gorffennaf 18

CYSTADLEUAETH DDARTIAU

Gwesty Dolbadarn am 8.00 o'r gloch

DISCO PLANT YSGOL DOLBADARN

Y Ganolfan 6.00 - 7.30 o'r gloch

Mynediad – 20c

DISCO PLANT HŶN

Y Ganolfan – 8.00 - 10.30 o'r gloch

Mynediad 30c

Nos Iau Gorffennaf 19

PÊL-DROED 5-bob-ochr

PÊL RWYD 5-bob-ochr

Cae Dôl y Goeden am 6.00 o'r gloch

Nos Wener Gorffennaf 20

BINGO

Y Ganolfan am 7.30 o'r gloch

★★★★★★★★★★★★★★★★

Dydd Sadwrn Gorffennaf 21

Y CARNIFAL

Yr Orymdaith i gychwyn o Swyddfa'r
Post am 12.30 o'r gloch

Gŵr Gwadd – Mr Orig Williams
'EL BANDITO'

Stondinau, Ffair fach, Hufen iâ, Cystadleuaeth
Majorettes, Jazz Bands a Breninesau.

Dewch yn llu – a chofiwch wisgo

(Mynediad i'r Cae – 50c; Plant a Phensiynwyr 25c)

★★★★★★★★★★★★★★★★

RAS YR WYDDFA



Cychwyn o Bont Glan y Bala
am 3.30 o'r gloch

Ffiniau'r Gorffennol

HEN WLAD FY NHADAU

Credaf fod mwy nag un fersiwn i'r hanes sut y cyfansoddwyd Anthem Genedlaethol Cymru – sef Hen Wlad Fy Nhadau. Dyma'r fersiwn a glywais i. Os clywsoch chwi un wahanol anfonwch yr hanes er diddordeb i bawb.

Clywais mai nos Sul ym mis Ionawr 1856 oedd hi. Yr oedd y teulu, sef Mr a Mrs Evan James a'r mab James James yn byw yn Stryd y Felin, Pont-y-pridd.

Oed Evan James oedd 46 mlwydd a'r mab James James yn bedwar ar hugain (24).

Yr oedd y fam, Mrs James wedi mynd i'r Eglwys i'r Gwasanaeth Crefyddol, a'r tad wedi mynd i'r gwely yn gynnar wedi blino. Aeth James y mab allan am dro ar hyd glan yr afon Rhondda. Toedd Evan a'r mab ddim wedi cael addysg mewn cerddoriaeth, ond yr oedd y dalent gerddorol megis greddf, wedi ei geni ynddynt. Er hynny yr oedd James y mab wedi dysgu chwarae'r delyn yn dda iawn. Fel gwehydd yr enillai Evan James ei fywoliaeth, a byddai James y mab yn helpu yn y ffatri hefyd.

Wrth gerdded ar hyd glan yr afon Rhondda ar y nos Sul hwnnw daeth alaw swynol i feddwl James y mab, a dechreuodd suo ganu iddo i hun fel petae. Mae'n debyg fod sŵn yr afon yn help iddo greu'r alaw yn ei feddwl – fel y dywed y bardd yn ei gân, 'Nant y Mynydd':

**Nant y Mynydd groew loew
Yn ymdroelli tua'r pant,
Rhwyng y brwyn yn sisial ganu ...**

Mae'n debyg fod sŵn yr afon Rhondda yn fwisgi i James hefyd ac yn sylfaen yr alaw dlos Hen Wlad Fy Nhadau.

Daliodd James i suo ganu yr alaw newydd nes cyrraedd adref.

Gwaeddodd yn y drws "Nhad codwch mewn munud, mae alaw swynol newydd sbon wedi ei geni yn fy meddwl – brysiwch i lawr neu bydd wedi diflannu, am byth efallai."

Cododd Evan James ar frys gwyllt, gwisgodd amdano a phrysuro i lawr y grisiau. Meddai'r tad, "Estyn y delyn a chwarae'r alaw heb oedi neu byddi wedi ei cholli."

Estynnodd James James y delyn, chwaraeodd yr alaw, ac Evan James yn nodi'r alaw ar bapur.

Yr oedd y tad a'r mab yn syfrdan ac yn teimlo na chlywsant erioed alaw debyg. Galwyd hi'n Glan Rhondda, ac efallai mai fel tŷn ar gyfer emyn y bwriadent iddi fod.

Tra'r oedd James yn chwarae'r delyn daeth Mrs James y fam i'r tŷ. Cafodd fraw pan glywodd y delyn yn cael ei chwarae a hithau'n nos Sul. "Rhag eich cywilydd," meddai, "chwarae'r delyn ar y Sabath, cadwch y delyn mewn munud."

Atebodd Evan James, "Onid ydych yn cofio pa beth a wnaeth Dafydd ar y Sabath? – mi chwaraeodd y delyn yn y Deml, a does dim o'i le i chwarae telyn ar y Sabath, 'Molwch yr Arglwydd ar y nabl ac ar y delyn', meddai'r Salmidd."

Gofynnodd James i'w dad gyfansoddi geiriau ar gyfer yr alaw. Felly fu. Ymhen ychydig o ddyddiau yr oedd y penillion i Anthem Genedlaethol Cymru, sef Hen Wlad Fy Nhadau, yn barod i'w canu.

Cefais i ar ddeall mai Mrs James y fam ganodd yr alaw a'r geiriau gyntaf erioed yn yr Ysgol Sul ymhen yr wythnos. Cofiwch fedr neb brofi dim.

Mrs Taliesin James, sef gweddwr mab James James oedd yr olaf i adrodd yr hanes fel yr wyf fi wedi ei glywed. Fedr neb fel y dywedais brofi dim byd gan fod amser wedi pasio cyn i'r hanes gael ei adrodd. I fod yn fanwl gywir dylai'r hanes fod wedi ei roi ar gof a chadw yn syth ar ôl cyfansoddi'r alaw. Wedi i amser fynd heibio yr oedd dychymyg yn dwad i fewn a hwn a'r llall yn rhoi ei fersiwn.

Busai'n ddiddorol iawn cael fersiwn rhywun arall. Weithiau sgrifennai James ei enw fel hyn, James Jones James, neu James Ffatri.

HEN WLAD FY NHADAU

**Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi,
Gwlad beirdd a chantorion,
enwogion o fri:
Ei gwrol ryfelwyr, gwlad garwyr tra**

**mâd,
Dros ryddid collasant eu gwaed.
Cytgan
Gwlad, gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad,
Tra môr yn fur, i'r bur hoff bau,
O bydded i'r hen iaith barhau.**

**O Gymru fynyddig paradwys y bardd,
Pob dyffryn, pob clogwyn i'm golwg sydd hardd,
Gan deimlad gwladgarol mor swynol yw si
Ei nentydd, afonydd i mi.**

Cytgan

**Os treisiodd y gelyn ein gwlad tan ei droed,
Mae Hen Wlad y Cymry mor fyw ag erioed,
Ni luddiwyd yr awen gan erchyll law brad,
Na thelyn berseiniol fy ngwlad.**

Cytgan

COFIO ALAFON

Un o ddynion mawr ein cenedl oedd Alafon. Curai ei galon yn gynnes iawn at Gymru a'r Werin. Yr oedd yn ffrind cywir i feirdd ieuainc ei oes, rhai fel W.J. Gruffydd a T. Gwynn Jones. Wrth gofio amdano, fel hyn y dywedodd T.H.J. "Y mae mwy o gysur prydferth nag o alar yn y cof amdano: a gwyddom oll os oes nefoedd mai yno y mae Alafon."

Y mae'r englyn ar garreg ei fedd ym mynwent Brynrodyn yn un o'r rhai prydferthaf.

Fe ddaeth o nef y nefoedd – belydryn,

**Heibio i lwydrew'r oesoedd:
A'r rhin o'i wawr a hanoedd
Eilfyw wnaeth, Alafon oedd.**

T. GWYNN JONES

BETWS GARMON

TREIALON CŴN DEFAID: Cynhelir y treialon yng Nghae Ystrad Isaf trwy garedigrwydd Mr a Mrs Gwilym Owen, **ddydd Gwener a'r Sadwrn, Awst 10 ac 11.** Hon yw un o'r treialon hynaf yng Nghymru gydag ymgeiswyr o bob rhan o Ogledd Cymru yn cystadlu. Dechreuir am 2.30 bawn Gwener ac am 9.00 fore Sadwrn. Ceir lluniaueth ysgafn ar y cae. Yr ysgrifennydd yw Mr H.O. Jones, Tŷ Coch – ffôn **Wauafawr 244.**

LLONGYFARCHIADAU: I Mr Tom Roberts, Bae Colwyn (Bryn Rhyd gynt) ar ei benodi'n Faer Colwyn am eleni. Dymuniadau gorau iddo yn y swydd bwysig hon.

MARW: Daeth tristwch mawr dros ardal eang o glywed am farwolaeth sydyn a chynamserol Mrs Veronica Williams, Ffridd Fawr, Llanfrothen yn

27 mlwydd oed. Cofiw'n Veronica yn byw ym Mhlas Gwyrfa'i yn ystod ei phlentynod yn ferch i Mr a Mrs Colin MacDonald oedd â swydd fel un o bennaethiaid yn Peblig. Cydymdeimlwn yn fawr â'i gweddwr a'i merch fach (oedd yn 2 oed y dydd canlynol), ac â'i mam a'i thad a'i brawd, Angus ac â'r teulu i gyd.

Hefyd ar Fehefin 15 bu farw Miss Sarah Elizabeth Roberts, Bryn Rhyd, yn 70 oed. Fe'i ganed a'i maged yma yn y Betws. Bu'n Is-fatron yn Ysbyty Gallt y Sil, Caernarfon cyn ei hymddeoliad.

Cydymdeimlir yn ddwys â'i chwaer Mrs Nellie Williams, ei brawd yng nghyfraith, Mr John Williams, Bryn Rhyd ac â'i brawd, Mr Tom Roberts, a'i wraig, Bae Colwyn, ac â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth lem.

ER COF am Mr Morris Roberts, Ffridd Isaf, Rhyd-ddu:

**Yr haf ddaeth i'r ardal yn hynod o fwyn
A'r blodau sy'n gwenu mewn perthi a llwyn
Yr wyn sydd yn prancio ar fryn ac ar ddôl
Ond bugail y Ffridd, ni ddaw atynt yn ôl.**

**Gwag yw yr aelwyd, a'r gruddiau yn llaith
Yn dawel yr aeth ar ei olaf daith
Ei ddefaid sy'n pori'n hamddenol a brat
Ond bugail y Ffridd, a aeth cyn yr haf.**

**Fe dreuliodd ei fywyd ar fryniau y wlad
Bugeilio ei braidd oedd ei bennaf
fwynhad
Cymeriad dilychwin, a gonest fel dur
Yn gadarn ei farn, a'i galon yn bur.**

**Cymerai ddiddordeb mewn popeth o fudd
Cyfrannai yn hael, â chalon oedd rydd
Baint oedd ei nabod am flwydi di-fwlch
Ei hun fyddo'n dawel, boed heddwch i'w lwch.**

Mrs E. JONES
Tŷ Capel
Rhyd-ddu

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

O ENAU PLANT BYCHAIN ...

Roedd 'na gi wrth y postyn yn trio gwneud bale ...

Mae mam yn pigo sosejis efo fforc i wneud yn saff bod nhw wedi marw ...

Mae 'mrawd bach i'n medru wincio – ar ôl i mi roi bys yn ei lygad o ...

Nath y gath roi sws i'r byji ac mi aeth o o'r golwg ...

SCIPIAU TIM



o £16

**CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL**

LLANBERIS 871354

Yn awr dan berchenogaeth

GWYNETH ROBERTS Siop

E.WILSON HUGHES

84 Stryd Fawr

LLANBERIS 870491

Daliwch i gefnogi fel o'r blaen!

MABOLGAMPAU

Goronwy Owen yn cofio dyddiau ysgol
ym Mrynrefail

Roedd gas gen i redeg 'Cross country'. Cychwynnwn fel trê, yn benderfynol o ennill, ond cyn diwedd y daith bob tro, rhaid oedd i mi fodloni ar weld cefn rhywun arall yn dalog ledio'r ffordd o fy mlaen. Oeddwn, roeddwn yn ceisio ymarfer yn ddistaw bach, draw heibio Tŷ Du, lle nad oedd obaith i neb fy ngweld. Cerddwn i Ben Bryn hefo fy nhrowsus tros fy 'shorts'; rhag tynnu sylw rhywun, dadwisgo yn y rhedyn a rhedeg i Clegir ac yn ôl. Yna ar ddechrau pob ras, awn fel chwrlu gwgan i'r blaen i fyny heibio cefn Llys, drwy Creigiau, ac arwain i lawr i'r gwastad tuag at Stabla, gydag ochor y lein, ond byddai Terry Sharp, Trefor Ellis neu Iorwerth Thomas yn araf rygnu heibio, ac yn mynd trwy'r tâp ymhell cyn i mi gyrraedd y cae.

Prifathro da oedd Emrys Thomas, yn ein hannog i gymryd rhan mewn gwahanol orchestion corfforol. Pan ddaeth ef i Frynrefail, fe ehangodd ein gorwelion yn helaethach na phêl droed a chriced. "Mae gen i waith newydd i chi i gyd. Gadewch eich sillfoedd llyfrau a'ch stolia'."

"Be ydan ni'n neud, syr?"

"Dowch yma i gyd ac mi ddweda i."

Wil Roberts, neu os mynnwch, Gitche Gwmnee, yn ein cyfarch ar ddechrau gwers gwaith coed.

"Llfiwch chi'r rhain yn dair troedfedd, chi'r rhain yn ddwy a hanner, a chitha'r rhain yn droedfedd."

"Ond be ydan ni'n neud syr?"

"Hurdles."

"Hurdles?"

"Ia, i neidio drostynt yn y 'shorts'."

O fewn wythnos a phawb yn bwrw iddi, roedd yna ddigon i drefnu rasmus, ond druan ohonom, nid yn unig doeddgan nebsyniad sut i'n hyfforddi, ond ar wair roeddym yn rhedeg, a gwair gwlyb llithrig hefyd. I wneud pethau'n waeth, ar ôl i'r ysgol gau am wyliau'r haf y byddai ffarm Llys yn lladd gwair. Erbyn canol mis Mehefin roedd y tyfiant at ein penliniau. Yn aml, wrth chwarae criced roedd 'na rediad neu ddwy am fod y bel ar goll. Yr awr ginio gyntaf, roedd y brwdfrydedd yn berwi wrth i ni gario'r 'hurdles' newydd i'r cae, a'u gosod yn y manau penodedig. Doedd cawodydd y bore ddim wedi tarfu dim arnom.

Stori wahanol oedd hi erbyn diwedd yr awr ginio; hanner dwsin o'r rhedwyr yn diodde gwahanol boenau, a nifer o'r hurdles yn yfflon.

Wnaeth hynny ddim rhoi pen arni, yn enwedig ar ôl i rhywun gael

y syniad o redeg mewn 'sgidia pêl-droed.

Brethyn cartre oedd ein pwll neidio hefyd. Yn agos i waelod y cae, roeddwn wedi codi'r tywyrch o ddarn o dir, rhyw 8' x 3'. O wely Afon Toriad, aethom ati i gario graean mân mewn pwcedi, i'w lenwi. I hwn yr oeddem yn neidio. Deuai'r athrawon bron i gyd i'r cae, amser cinio, i ofalu am y rhagbrofion. Un tro, roedd y prifathro ei hun yn gofalu am y pwll, a rhai ohonom ni, fechgyn hynaf, yn ei gynorthwyo. Rheddodd M.P. un o'r ymgeiswyr at y marc, llamu i mewn, a disgynnodd hanner sigaret o boced frest ei grys, heb iddo sylweddoli. Ond roedd yr hen Domos nid yn unig wedi sylweddoli, roedd o hefyd wedi ei chodi a'i tharo yn ei boced ei hun yn hollol ddiifwdan. Nawr, 'fel y cofia llawer, pechod anfaddeuol i Emrys Thomas, oedd smocio, a'i ymateb anghynewidiol bob amser, oedd y gansen. Dechrau gwersi prynhawn, cafodd M.P. alwad i'r swyddfa i egluro'i bechodau. Fe hoffwn i fod wedi bod yn bry' bach ar y wal, yn gwrando ar y sgwrs.

"Mi ydych chi yn smocio."

"Smocio? Fi? Nag ydw syr."

"O. Wel sut ddaeth hon o boced eich crys wrth i chi neidio, amser cinio?"

"O boced fy nghrys i?"

"Ia, o boced frest eich crys chi."

Tawelwch bach, ac yna, "Syr, nid fi bia'r crys yma."

"Nid chi bia'r crys? Nid chi bia'r crys? Wel crys pwy ydy o?"

"Crys fy mrawd mawr syr. I grys o ydy o."

Sut y gallai unrhyw brifathro wrthbrofi'r fath esgus! Fe aeth y gansen yn ôl i'r cwpwrdd, ond roedd yr hen Domos yn llygaid ei le yn ein gwahardd i smocio. Mae'r gymysgfa



wenwynol o lwch y lechen a nicotin, wedi lladd gormod o fy nghyfeillion, a llawer o ddynion da a ddeuais i'w hadnabod yng nghymoedd glo y De 'ma hefyd.

Diddorol oedd gweld llun Joan Rees Edwards a Melanie Sellars yn yr 'Eco', Gorffennaf '83. Adnabuaf deulu Melanie, a chofiaf Joan yn dda, oherwydd ei gallu anghymarol.

Ond Victrix Ludorum arall sy'n hawlio fy atgofion sef Dilys Price. Yn yr ysgol roedd hi'n llawn bywyd ac ynni, ond o'r coleg, galwyd hi i redeg mewn stadiwm sy tu hwnt i'r byd hwn, oherwydd afiechyd nad oedd iddo feddyginiaeth. Erbyn heddiw, mae pethau wedi gwella, diolch byth - a mil a mwy o well cyfleusterau meddygol a chorfforol i'r ifanc a'r hen. Mae ganddom ni i gyd le i fod yn ddiolchgar.

NANT PERIS

MARW: Yn dawel yn Hafan Gaerwen Mehefin 13 bu farw Mrs Janet Searell Jones, Y Fron yn 92 oed. Roedd Mrs Jones yn enedigol o Nebo, Dyffryn Nantlle ond wedi treulio'r rhan helaethaf o'i hoes yma yn y Nant. Bu ei diweddar briod a hithau'n aelodau ffyddlon a gweithgar gydol eu hoes yn eglwys Rehoboth, lle y bydd chwithdod mawr o'i cholli. Bu gwasanaeth yr angladd ddydd Sadwrn, Mehefin 16. Gwasanaethwyd gan y Parch Trefor Lewis gweinidog a darllenwyd teyrnged gan y Parch John Owen,

Rhuthun cyn-weinidog oedd yn methu bod yn bresennol.

Gedy ddau fab, Gwilym ac Alun, dwy ferch yng nghyfraith, Alice a Jennie Wyn, pump o wyrion, Mair, Rhainnon, Emyr, Elwyn ac Alwyn a phedwar o or-wyrion a chydymdeimlir â hwy yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

GWELLA: Balch ydym o weld Mr O.W. Humphreys, Gwastadnant ac Elwyn Searell Jones, Dwyfor gartref wedi cyfnod yn yr ystyby.

CARNIFAL - Cynhaliwyd cyfarfod i drefnu'r Carnifal nos lau, Mehefin 21, pryd yr etholwyd i gynnal y gweithgareddau nos Wener, Awst 3. Gwahoddir brenhinesau a dawnswyr lleol i'n plith, ac estynnwn groeso cartrefol i bawb.

ENNILL CYSTADLEUAETH - Llwyddodd Eifion Peris, Cerrigydrudion, i ennill yr ail wobwr mewn cystadleuaeth mewn cylchgrawn dringo. Ei wobwr oedd 'rucksack' gwerth £80, ac mae'n disgwyl y postmon yn eiddgar iawn.

GWOBRAU - Cafodd M.W. Pritchard, Ty Isa', ddwy wobwr gyntaf gyda dau o'i wyn yn Sioe Bethesda yn ddiweddar.

**COFIWCH -
NAD OES RHIFYN MIS
AWST O'R ECO
DAW ECO RHIF 95 O'R
WASG AWST 30**

M. ROWLANDS MONUMENTAL MASONS

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2898

(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic
gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad

Cerrig newydd a gwaith adnewyddu:
dim ots pa mor bell

Stoc helaeth o'r cerrig gorau:
dyfynbris am ddim

AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

JUNE'S MOBILE HAIRDRESSING

Gwasanaeth
dydd Llun i ddydd
Gwener

9.00 y bore
7.00 gyda'r nos

**Ffôn: Bethesda
600688**

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Mary Davies, 9 Llys-y-gwynt (872329)

CLWB Y MERCHED: Mis Mai cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mrs Helen Ireland yn dweud hanesion am Awstralia. Diolchwyd iddi gan Mrs Katie Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Eirlys Jones a Mrs Bessie Williams a diolchodd Mrs Mary Davies iddynt. Mrs Nell Williams enillodd y raffl. Bydd y trip yn mynd i Landudno i'r Theatr ar Orffennaf

TRIP YR YSGOL SUL: Bydd trip Capel Bozra yn mynd i'r Rhyl ar Orffennaf 7.

EGLWYS Y SANTES HELEN: Cafwyd noson goffi dan nawdd Undeb y Mamau yn Neuadd yr Eglwys nos Lun Mehefin 4 er budd Cymorth Cristnogol. Yr oedd yn noson lwyddiannus dros ben ac anfonwyd y swm anrhydeddus o £56.50 i'r cyfeillion yng Nghymorth Cristnogol. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

DYDD GWEDDI A RHODD: Cynhelir ein dydd Rhodd eleni ar Orffennaf 8. Bydd gwasanaeth y plant yn y bore gyda Mr Vernon Owen a Chymun Bendigaid Undebol yn y prynhawn gyda phregeth gan y Parch Eryl Blainey.

AR Y RADIO: Bu Mrs J. Roberts, Elidir View yn siarad ar y rhaglen 'Ar Gof a Chadw' yn ddiweddar am beth o hanes chwarel Dinorwig.

Mae plant yr Ysgol Sul i'w llongyfarch am eu gwaith da yn yr Wyl Gorawl a gynhaliwyd yn Llanberis ar Fehefin 3. Diolch i Miss Mair Ffoulkes am wneud yr arholiadu llafar ac i athrawon yr Ysgol Sul am eu llafur hwythau yn hyfforddi'r plant.

Dymunwn wellhad buan i Mrs I. Griffiths, 5 Bryntirion, Mrs Betty Evans, Glyn Arthur, Mr J.W. Jones, Bryntirion sydd wedi bod am gyfnod yn ysbytai'r fro. Brysiwch wella i gyd.

Llongyfarchwn Mr a Mrs Tegid Roberts, Arwel ar enedigaeth mab bach, Ioan Eurig, brawd i Ynyr a Huw.

Cydymdeimlwn â Mrs M.J. Roberts, Tai Croesion wedi colli brawd yng nghyfraith.

Llongyfarchwn Dylan Williams, Carrog, Waun ar gyrraedd ei ddeunaw oed.

Fe garai Mrs P. Mathews, Freshwinds ddiolch i Mrs Pat Jones, Mrs J. Roberts a Sioned am fynd o amgylch gyda blychau 'Cartrefi Cheshire'. Fe gasglwyd £19.57 - diolch i bawb am eu cefnogaeth.

LLONGYFARCHIADAU: i'r Cynghorydd Pat Larsen ar gael ei dewis i fod yn Gadeirydd ar Bwyllgor Cynllunio Cyngor Arfon.

CYDYMDEIMLWN: a Mrs D. Lamb, Bryn Eglwys yn ei phrofedigaeth o golli ei hewythr; a hefyd gyda Mrs Ann Evans, Sycharth hithau wedi

colli ei modryb.

CLWB YR HEULWEN: Cafwyd cyfarfod ddydd Mawrth Mehefin 19. Pasiwyd i gael y wibdaith flynyddol i'r Bermo ar ddydd lau, Gorffennaf 19. Bydd y bws yn cychwyn am un ar ddeg o'r gloch y bore. Rhoddwyd y te gan Mrs N. Roberts, 12 Llys y Gwynt a Mrs J.P. Jones, 13 Bryntirion, ac fe enillodd Miss Gwenifer Jones y raffl. Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 18 ac fe basiwyd i ddechrau am ddau o'r gloch. Diolchodd Mrs E. Porter am y te.

CAPEL BOZRAH: Mae aelodau Capel Bozrah wedi bod yn edrych ymlaen at gael atgyweirio a pheintio'r capel, ac mae bechgyn y Diwydiant Cymunedol o'r Borth ar fin dechrau'r gwaith.

Mae gwaith mawr yno a'r gost yn fwy. Mae'r swyddogion wedi derbyn rhoddion hael gan aelodau a charedigion yr achos ac maent yn wir ddiolchgar.

Dyma'r unig gapel yn y pentref a'n cyfrifoldeb yw cadw'r drws yn agored er mwyn dyfodol y plant. Os teimla rhywun awydd ein helpu yn ariannol, bydd yn dderbyniol iawn. Gellir cysylltu â Mrs Nancy Jones, Meillionydd, Mrs B. Hughes, Bryn Hyfryd, Mr John O. Jones, Cae Corniog neu Mr J. Munro, Tŷ Capel.

Mae'r Parch Aled Edwards a'r Parch Eryl Blainey, gweinidog, wedi trefnu fel y gallwn addoli bob pnawn yn eglwys y Santes Helen tra mae'r gweithwyr yn y capel. Mae ein diolch i'r ddau yn fawr iawn.

YSGOL TAN Y COED

CRONFA ACHUB Y PLANT - Diolch i'r rhieni am eu cyfraniadau tuag at y Disgo yn ddiweddar; anfonwyd £42 i Gronfa Achub y Plant.

MABOLGAMPAU'R URDD - Bu naw o'r plant yn cystadlu ym Mabolgampau'r Urdd, Cylch Arfon ar gae Ysgol Brynrefail. Llongyfarchiadau i Emyr (1af am Naid Hir dan 11 oed), Ceirion (2il am Redeg dan 9 oed), Steven (2il am Dafu Pêl dan 11 oed), a Rhian (3ydd am Redeg dan 11 oed).

DIOLCH - Dymuna Nant a Tegid, Arwel, Llanrug, ddiolch yn fawr iawn am y cardiau, y dymuniadau da a'r rhoddion a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth Ioan Eurig.

LLONGYFARCHIADAU i Ken a Karen, Llwyn Derw ar eu dyweddïad.

CASGLODD Kevin a Bronwen Jones £30 ar daith gerdded ddydd Llun, Mai 28, yr elw tuag at y Genhadaeth Dramor a Chartrefi Plant. Diolch i bawb a gyfrannodd.

CERDDOROL - Llongyfarchiadau i Olwen Meredydd Jones, Pant Hywel ar ei llwyddiant yn ddiweddar mewn arholiad canu'r piano Gradd 5 dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod, Llundain.

CARNIFAL PENISA'RWAUN

CARNIFAL - Gorffennaf 1984.

Gorffennaf 10, Nos Fawrth 7.00pm. Bingo yn Neuadd yr Eglwys.

Gorffennaf 11, Nos Fercher 6.30pm.

Gemau Giamocs rhwng 5 o dimau.

Gorffennaf 12, Nos lau 6.30pm.

Noson i blant yr Ysgol Gynradd a phlant dosbarth cyntaf yr Ysgol Uwchradd.

Gorffennaf 13, Nos Wener 6.30pm.

Mabolgampau i'r pentrefwyr.

Gorffennaf 14, Dydd Sadwrn 2.00pm.

Carnifal gyda Mr a Mrs Gari Williams a Mr a Mrs Iolen Hughes yn beirniadu.

Gorffennaf 15, Nos Sul 7.00pm.

Cymanfa Ganu yn yr Eglwys a Chôr Mrs J. Turner.

Gorffennaf 21, Nos Sadwrn. Noson gymdeithasol mewn gwesty lleol i'r pentrefwyr.

ARWYDD O'R AMSEROEDD



Rhywun wedi dechrau preifateiddio llwybr cyhoeddus ger Pen Dinas. Gwybodaeth os gwelwch yn dda.

DARLUNIAU DDOE A HEDDIW

Yn y glaw
a'r lechen yn arian
daw cysgod ddoe yn drwm
i lethu'r dyffryn.
Chwipia'r canrifoedd yn wyn
dros wyneb Llyn Padarn
tra rhywga'i anian, dros gopa
Elidir.

Swatia'r pentref yng nghesail
fy nghynefin
a'i oleuadau pell
yn cynhesu'r gwyll
trwy'r coed yn gysur
yn gwahodd fel ag erioed.

Yng nghrombil Elidir
yn nythu
yn tyfu - neidr.
Peiriannau dyn ffôl
yn eu gwely o goncrid
a'u rhoio undonog
yn edliw cynnydd unochrog
i anffodusion y dôl.

Ar lethr pwll glas
bywydau dynion wrth raff
yn darnio treftadaeth
er mwyn hanner bywoliaeth
a chreu ffortiwn
amheuthun i un
nad oes ganddo
staen gwaith ar ei ddwylo.

Dydd o haf, ar gopa'r Wyddfa
a'r byd yn ymestyn yn las
i dath y môr. Yn y tes
saf Sais o ymwelydd
a'i gefn yn gynnes
yn ymfalchïo mewn celwydd.
Toes bosib, mai iddo ef a'i dras
y crewyd, y crewyd Eryri?

Ceiniogau prin, cartrefi tlawd
yn adeiladu breuddwyd
yn gwireddu delfryd.
Coleg i blant chwarelwr.
Addysg - eu gwaredwyr
rhag healau fyrrdd
taeogrwydd.

Wele, heddiw, islaw y coleg
hafan Seisnig, byd wadin
myfyrwyr ymhell o'u cynefin.
Yno, yn yr undeb foethus
a'r mwg yn felys
ceir mwynhad o liwiau
a drychiolaethau.

Am bedwar y prynhawn
lleisiau plant
yn rhwyfo'r awel,
cri gwyllan unig
ond mud yw'r corn chwarel.
Mud hefyd yr inclens
y ponciau a'r pyllau,
ond i glustiau
rhaf o'r trigolion
daw hoelion esgidiau
i grafu'n atgofion.

SHARON OWEN
17 Stryd Bangor
Caernarfon

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr**

CRONFA GOFFA R.H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am gymorth daliadau o'r Gronfa uchod. Cynigir cymorth mewn cylch eang o weithgareddau, a cheir yr amodau a'r manylion, ynghyd â ffurflenni cais, gan yr ysgrifennydd: **ALED OWEN, 13 CHARLOTTE ST, LLANBERIS**. Bydd yn ofynnol i'r ceisiadau ddod i law erbyn **AWST 31, 1984**

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen
Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn. (Waunfawr 626)

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd y cyfarfod misol ar Fai 24. Llywyddwyd gan yr is-lywydd Mrs Olwen Williams. Yn ystod y mis collasom un o'n haelodau ffyddlonaf a gweithgar sef Mrs Greta Hughes, Tref Eilian a chydymdeimlwyd â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Cydymdeimlwyd hefyd â Mrs M.A. Owen, Tref Eilian ar farwolaeth ei brawd yn Nhalysarn. Mae cydymdeimlad yr aelodau hefyd â Mrs Nellie Williams, Bryn Rhyd, Betws Garmon ar golli ei chwaer, Sera.

Daeth Mrs Ceinwen Roberts o Gelli Lydan atom i ddangos rhai o'i chasgliad o hen lestri a diolchwyd iddi gan Mrs Llinos Cadwaladr.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mai: 1. £40, J.A. Parry, Llys Arfon; 2. £25, J. Cadwaladr, 3 Glyn Afon; 3. £10, Mrs E.A. Roberts, Pant Afon.

ADREF O'R YSBYTY: Bu Mr David Jones, Lynfod; Mrs Carys Jones, Morawel a Mrs Rhian Ellis, Glyn Awel yn yr ysbty yn ddiweddar. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddynt.

ADREF O DDE AFFRICA: ar wyliau yn ddiweddar daeth John a Sharon (Parry gynt) i aros hefo rhieni Sharon yn 17 Bro Waun. Gobeithio iddynt fwynhau eu hamser yn ymweld â'u teuluoedd a'u hen ffrindiau.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr enillwyr Clwb 100 am fis Mai: 1. Dafydd Iwan, Pen y Berth; 2. Gwilym Hughes, 16 Tref Eilian; 3. Ifanwy Rhisiart, Bod Afon.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr Evan Jones, Argraig ar fod yn daid. Ganwyd mab i Rita ac Eric, a merch i Phyllis ac Adrian.

YR URDD: Llongyfarchiadau i'r parti canu a ddaeth yn gyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac i Iwan Ellis am ddod yn drydydd ar yr unawd ffliwt dan 15 oed. Llongyfarchiadau hefyd i Rachel ac Osian am gael arddangos eu crochenwaith yn yr arddangosfa Gelf a Chrefft.

Hoffem ddiolch i Mrs Rhian Ellis am iddi roi gymaint o'i hamser i hyfforddi llawer o'r plant, a dymuno iechyd buan iawn iddi.

CARNIFAL YR YSGOL FEITHRIN: Cofiwch am ein Carnifal sydd yn cael ei gynnal ar gae'r ysgol ddydd Sadwrn, Mehefin 30, gyda Syr Wymff ap Concord yn beirniadu y gwisg ffansi. Bydd yr orymdaith yn cychwyn o Dre Feddyg tua 2.15 o'r gloch a bydd y mabolgampau yn dilyn y Carnifal.

Cynhelir y Carnifal yn Neuadd yr Eglwys os bydd y tywydd yn ddrwg.

DIOLCH - Dymuna Mrs J.M. Roberts (Anti Jennie), Bryn Golau, ddiolch i staff y gegin yn yr ysgol am y rhodd o lestri te; i'r athrawon a'r plant am y blodau, ac i bawb am y cardiau a'r dymuniadau gorau.

YR YSGOL

TARIAN GERDD - Enillwyd y Darian Gerdd eleni gan Shoned Rees Roberts. Rhoddir y darian i'r plentyn sy'n cyfrannu fwyaf i gerddoriaeth yn ystod y flwyddyn ysgol. Mewn cyfarfod arbennig yn yr ysgol cyflwynwyd y darian iddi gan Mrs Elinor Wigley. Rhoddwyd y darian gan Mrs Ann Marston.



NOFIO - Enillwyd y tystysgrifau gan y plant canlynol mewn Gala Nofio yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon - Gwyndaf Raymond Williams, Suzanne Jacobs, Telor Iwan, Scott Lord, Rachel Pierce a Felicity Duncan.



COFEB I ANTURIAETHWR O GYMRO

Beth yw cysylltiad Llywodraethau Talaith North Dakota â'r Waunfawr? Fawr ddim, a dweud y gwir, ond o leiaf mae wedi clywed am y pentref, ac y mae posibilrwydd y bydd yn rhoi cryn dipyn mwy o sylw i bentref y Waunfawr yn y dyfodol. A'r rheswm am hynny yw canlyniad ymweliad â North Dakota yn ystod Hydref 1983 gan Brif Weithredwr Cyngor Sir Gwynedd, Mr Ioan Bowen Rees.

Yn ystod yr ymweliad hwnnw treuliodd Mr Rees nifer o ddyddiau yn ardal Bismarck. Yno roedd canolfan dreftadaeth - "North Dakota's Forgotten Heritage Center" a wnaeth argraff arbennig arno. Er hynny, roedd yn siomedig nad oedd unrhyw sylw o gwbl wedi ei roi i John Evans, Cymro a aned yn y Waunfawr ac a aeth ar daith ymchwil ar hyd afon Missouri i geisio darganfod yr 'Indiaid Cymreig'.

Mae haneswyr Americanaidd bellach yn cydnabod pwysigrwydd John Evans fel archwiliwr a lluniwr mapiau. Ef oedd y cyntaf i fapio'r Upper Missouri - map a nodiadau a ddefnyddiwyd yn ddiweddarach gan Lewis a Clark ar eu taith o St. Louis ar draws mynyddoedd y Rockies i arfordir y gorllewin - rhwng 1803 ac 1806. Aeth y map a luniodd John Evans ar goll, ac ni ddaeth i'r fei hyd 1903. Y pryd hynny tybid mai un o fapiau Clark ydoedd, a bu'n rhaid disgwyl hyd 1946 cyn unioni'r cam hwnnw gan hanesydd o'r enw Diller.

Roedd gan Mr Rees ddiddordeb arbennig yn hanes John Evans

oherwydd ei fod yn hanu o'r un cyff. Roedd mam John Evans yn chwaer i hen hen daid Mr Rees. Ym mis Chwefror eleni, ysgrifennodd Mr Rees at lywodraethwr Talaith North Dakota yn rhoi sylwadau manwl ar hanes John Evans a'i gysylltiadau hanesyddol â'r dalaith honno. Yn y llythyr, argymhellodd fod cofeb yn cael ei chodi i John Evans yn North Dakota. Dyma ran o'r llythyr a dderbyniodd yntau'n ôl:

I appreciate your suggestion that a memorial be erected to John Evans at an appropriate spot in North Dakota. We will give serious attention to this matter and to other interpretation involving his contributions.

Mae olwynion felly, wedi dechrau troi, a threfniadau mewn llaw i goffáu arloeswr o Gymro mewn talaith yn America bell. Oni ddylid dangos yr un edmygedd a pharch tuag at John Evans yn ei wlad ei hun? Byddai'n ddiddorol derbyn awgrymiadau gan y darllenwyr ynglŷn â'r dull gorau o gofio John Evans ym mro ei febyd. Ni ddylid caniatáu i America gael monopoli o'r cofio 'chwaith.

BRENNINES Y CARNIFAL



Y frenhines Heidi a'i gosgordd yn barod ar gyfer Carnifal y Waun.

TARIAN GYWAITH - Telor Iwan oedd enillydd y Darian Cywaith eleni. Y beirniad oedd Mr Hugh Jones, Prifathro Ysgol Talysarn. Cyflwynwyd y Darian i Telor Iwan gan Dr Raymond Williams sydd wedi rhoddi'r Darian i'r Ysgol. Rhoddwyd Tocyn Llyfr i'r 2il a'r 3ydd, sef Rachel Pierce a Scott Lord. Hefyd Tocyn Llyfr

i'r goreuon yn eu dosbarth fel a ganlyn: Safon I, Elin Gwilym; Safon II, Osian Gwynedd; Safon III, Suzanne Grindley.

TÎM PÊL DROED - Enillodd tîm pêl droed yr ysgol eu gêm olaf yn erbyn Ysgol Talysarn o 4 gôl i 1. Y Sgorwyr oedd Kevin Tame (2), Dylan Jones (1), Telor Iwan (1).

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

GWASANAETH
TRIN GWALLT YN
EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd
Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



TAI ... SWYDDFEYDD ... FFATRIOEDD

Gadewch inni lanhau eich
CARPEDI, CYRTENS, '3 PIECE SUITES'
ac ati

yn broffesiynol gyda'r peiriant

STIMVAX

Y diweddaraf, mwyaf modern ar y farchnad.
I'w glanhau fel newydd, ffoniwch neu galwch
yn

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR, Ffôn 291

ORIAU AGOR: 9-7pm, 9-5pm Sadwrn Ar gau: Sul, Mercher

CYNTAF!



HWYL YR WYL —



UCHOD: Ffion Williams, Llanrug — cyntaf ar yr unawd.

ISOD: Parti genethod Ysgol Llanrug — cyntaf ar y gystadleuaeth i bartïon Cerdd Dant



Plant Ysgol Pendalar Caernarfon yn perfformio ar lwyfan y Genedlaethol.



Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?
A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod
yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol
ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym
wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i
lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus
gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch
cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar
gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor.
Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un
o'n cynghorwyr; cewch drafod eich
syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

**Welsh
Development Agency**

O YSGOL LLANRUG



Parti Bechgyn o Lanrug — 3ydd ar ganu 'Guto Penfelyn'.

O YSGOL BRYNREFAIL



"Genod Ni" oedd ffug enw'r criw yma o 1P a 1J ddaeth yn drydydd am wneud cywaith ar y testun 'Bwydydd'.

O'R WYDDGRUG



CYNTAF!



Graham Williams, Ysgol Brynrefail — 1af ar ganu'r corn.

Isod: Menna Dauncey Williams o Fethel — 3ydd ar y gystadleuaeth barddoniaeth — 'Y Trip', dan 10 oed.

Cyflwyno Tiws i Ysgol Pendalar.

O'R WAUNFAWR



Parti Unsain buddugol y Waunfawr — (am yr eildro yn olynol) — Iwan Ellis yn cyfeilio, a'i fam, Rhian Ellis oedd yn eu hyfforddi.



Siôn Llwyd Elis a Dyfrig Wyn Lewis a ddaeth yn drydydd ac yn ail ar gyfansoddi cerdd ar y testun 'Murddun' allan o 176 o gystadleuwyr.

LLWYTH o lyfrau da



LLYFR SËR MADAM SERA

Llyfr seryddol mwyaf a mwyaf anghredadwy'r iaith! £2.95

CWIS A PHÔS / Hafina Clwyd £2.45

Oriau ac oriau o grafu pen!

CAILO 4 / Dafydd Parri £1.75

O dreialon cwn defaid i garchar tandaeol.

Y TRÊN OLAF ADREF £2.95

gol. Steve Eaves

Cerddi pop a phrotest grŵpiau cyfoes Cymru.

Cyfras Rwdlan / Angharad Tomos

3. DIFFODD YR HAUL 95c

4. Y DEWIN DWL 95c

Mwy o anturiaethau gwyrachod Gwlad y Rwl!

GILMORA / Gilmor Griffiths £2.95

15 o alawon cerdd dant.

STORI DDA / Glyn Russell Owen £1.95

Atgofion newyddiadurwr o Lŷn.

POLICE CONSPIRACY? / John Osmond

Datgelu'r holl stori am Achos Cynllwynio Caerdydd. £2.95

DYMA FI! £2.65

I gofnodi'r baban newydd.

LLIWIA DY WLAD, 1 & 2 95c yr un

Llyfrau llwio unigryw, Cymreig.

WELCOME TO WELSH / Heini Gruffudd

Cwrs newydd cyflawn, llawn lluniau strip. £1.95

DEWCH I CHWARAE SNŴCER £1.65

Bob Dorkins

Y 3ydd yn y gyfres chwaraeon.

Y CLOC TYWOD / Gwyn Williams £2.95

Nofel feddylgar, wahanol am Gymry yn yr anialwch.

Llyfr Llofnodion CADWGAN £1.75

BATHODYNNAU CADWGAN

8 math newydd sbon. 30c yr un



...ac wrth gwrs
LOL Haf '84
Rhifyn Rhyddid
i Ferched 60c
Rhywiaethol!
Hiliol!

Y Lolfa Cyf.

TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
ffôn (097086) 304
Mynna gopi o'n catalog rhad!

DEINIOLEN

Gohebydd: W.O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen. (Ffôn: Llanberis 871259).

DIOLCH - Dymuna Mrs E. Wynne, Y Mans, Bronwydd, Caerfyrddin, a'r teulu ddiolch am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt gan gyfeillion o ardal Deiniolen a'r cylch, adeg marwolaeth annisgwyl y Parchedig John Price Wynne. Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at Cymorth Cristnogol.

DIOLCH - Dymuna Mrs Katie Lewis, 7 Maes Gwylfa ddiolch i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am y llu cardia, blodau ac anrhegion a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar a hefyd ar ôl dychwelyd gartref. Diolch yn fawr i bawb.

Mrs JENNIE THOMAS -

Ddydd Mercher, Mehefin 13, bu farw Mrs Jennie Thomas, Cynfal, Ffordd Deiniol, yn frawychus o sydyn yn ei chartref. Roedd hi'n 80 mlwydd oed.

Mae cenedlaethau o blant Deiniolen yn ei chofio fel 'Anti Jennie'. Roedd yn aelod gweithgar o Eglwys Ebeneser, a bu'n gyfrifol am ddosbarth y babanod yn yr Ysgol Sul am bron i 50 mlynedd.

Gweddwr Mr William B. Thomas oedd hi, ac mae'n gadael ei hunig fab, Kenneth, sydd yn aelod o'r Gwasanaeth Llysgenhadol, ac sydd ar hyn o bryd yn gweithio yn y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol ddydd Mawrth, Mehefin 19 yn Eglwys Ebeneser, ac yna rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym mynwent Macpelah.

Gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch Trefor Lewis, B.D.

GWAHODDIAD - Dymunwn fel pentrefwyr longyfarch Fred a Gloria Thomas, 35 Rhydfadog am gael gwahoddiad gan y Frenhines i arddwest ym Mhlas Buckingham ym mis Gorffennaf. Pob hwyl i'r ddau.

CLWB ELIDIR - Cynhaliwyd cyfarfod o'r clwb yn y Clinic Mai 29. Treuliwyd prynhawn difyr yng nghwmni Mrs Nancy Rowlands, a oedd wedi paratoi cwis i'r aelodau. Rhoddwyd y te gan: Mrs Maggie Morris, 9 Tai Marian; Mrs Laura Williams, 20 Hafod Olau; Mrs Maggie Jones, 7 Hafod Olau a Mrs Gwyneth Lloyd Roberts, Brynrefail. Anfonwyd cofion at yr aelodau canlynol sydd wedi bod yn yr ysbyty: Mrs Mary Thomas; Mrs Enid Williams; Mrs Katie Lewis, a Mrs Maggie Evans. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Gwyneth Lloyd Roberts. Diolchwyd yn gynnes i Gwmni Eryri S4C, am eu rhodd o deisen i'r aelodau.

Yn y cyfarfod ar Fehefin 12 y gŵr gwadd oedd O.R. Williams, 2 Bro

Elidir, Dinorwig. Dywedodd hanes ei arhosiad yng Nghartref Bontnewydd am gyfnod o dair blynedd a hanner. Mwynhaodd pawb y sgwrs yn fawr iawn. Diolchwyd iddo gan Mrs C. Marren; Mrs Nellie Hughes, a Mrs Ellen Williams. Rhoddwyd y te gan: Mrs Williams, 8 Ffordd Deiniol; Mrs Katie Jones, 7 Cyfni Terrace; Mrs Dilys Jones, 9 Cyfni Terrace, a Mrs Nellie Hughes, Erw Fair. Enillwyd y raffl rhoddedig gan Mrs Kate Ellen Davies gan Mrs Megan Morris. Cynhelir cyfarfod olaf Clwb Elidir Gorffennaf 10. Ni chynhelir cyfarfod arall hyd fis Medi. Ddydd lau, Gorffennaf 19 bydd trip y Clwb yn mynd i Landudno.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fehefin 4 dan ofal y llywydd. Darllenwyd y llythyr misol a'r cofnodion gan yr ysgrifennydd. Y wraig wadd oedd Mrs Edwards, Fferylllydd o Fangor.

Croesawyd hi gan y llywydd a chawsom noson ddifur iawn gan Mrs Edwards yn dangos arddangosfa o bersawr. Diolchwyd iddi gan Mrs Rita Parry Jones, llywydd, a Mrs Nancy Rowlands. Rhoddwyd y te gan Miss Jean Maeller, Clwt-y-bont a Mrs Maureen Evans, 32 New Street.

Enillydd y raffl rhoddedig gan Mrs Edwards oedd Miss Jean Maeller, Mrs Owen Hughes, Mrs Marion Williams a Mrs Anna Williams.

Bu Mrs Edwards yn garedig iawn yn rhoi samplau o'r persawr i'r aelodau. Bydd y cyfarfod nesaf ar Orffennaf 2 pryd y disgwylir Mrs Mary Evans, Rhosgadfan i ddangos gwaith llaw.

CARNIFAL: Cofiwch am y Carnifal a ddechreuir nos Fercher, Gorffennaf 11 am 7 o'r gloch, gyda chyngerdd gan blant yr Ysgolion Sul, pryd y coronir y Frenhines Julie. Nos lau - gorymdaith y Majorettes am 6 o'r gloch o Rydfadog i'r cae chwarae, yna Mabolgampau am 7 o'r gloch. Nos Wener bydd Disco i'r plant yn iard yr Ysgol Feithrin am 6.30 a Bingo i'r oedolion yn ystafell y Band am 7.30. Dydd Sadwrn - gorymdaith y Carnifal yn cychwyn o Rydfadog am 1.30 gyda Seindorf Arian Deiniolen, y tri Deiniol Majorettes, Brenhines Julie a'i gosgordd, Breninesau gwadd a'r gwisgoedd ffansi. Fe agorir y Carnifal yn y cae chwarae (Hafod Olau) gan Mrs K. Maud Williams, Caernarfon (cyn-athrawes Ysgol Gwaun Gynfi). Cofiwch gefnogi'r Carnifal.

I'R EISTEDDFOD:

Bydd Bws yn gadael y pentref am 5.00 o'r gloch lau Awst 9 i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanbedr-pont-Steffan, os oes gan rhywun ddiddordeb rhowch eich

enw i Mrs Lona Lewis, 36 Rhydfadog neu unrhyw aelod o Gôr Adrodd Ceris.

SEINDORF: Enillwyd Clwb 100 am Fehefin: 1. £25; rhif 109 Irfon Thomas, 6 Tai Marian, Deiniolen. 2. £15, rhif 197 D.J. Lewis, Cyngor Sir Gwynedd. 3. £5, rhif 106 Mrs G. Thomas, 24 Cae Carreg, Caernarfon.

DIOLCH: Dymuna Aeron Maldwyn Jones, 14 Rhes Marian ddiolch yn fawr iawn am y llu cardia ac anrhegion a dderbyniodd tra yn ysbyty Môn ac Arfon yn ddiweddar.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn y Ganolfan nos Lun, Mai 21 o dan lywyddiaeth Mrs J. Eirlys Williams. Cafwyd noson hynod o ddiddorol gan y gŵr gwadd sef Mr W. Iolen Hughes, Tŷ'r Ysgol, Rhiwlas.

Pasiwyd i gael taith ddirgel ar Fedi 8. I ofalu am y daith codwyd Mrs Megan Morris a Miss Marian Jones.

I ddiweddu'r noson cafwyd paned o de a bisgedi gan Mrs Gwen Hughes a Mrs Dilys Hughes.

Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol nos Lun Mehefin 18.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD: Nos lau, Mehefin 7, cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas Chwiorydd Eglwys Disgwylfa (MC). Cymerwyd y rhan ddefosiynol i ddechrau'r cyfarfod gan Mrs Helen Jones.

Croesawodd Mrs Miriam Lewis (llywydd) bawb a oedd yn bresennol, ac estynnwyd cofion cynnes hefyd, at yr oll o'r aelodau hynny sydd ag

anhwylder iechyd arnynt, a gobeithir y byddant yn gwella'n fuan iawn. Cydymdeimlwyd â theulu y diweddar Mr Dennis Hughes, sef Mr a Mrs H. Hughes, 4 Gwyrfa Terrace, Clwt-y-Bont, Bridgette a'i brodyr, am golli mab a thad annwyl. Cafwyd adroddiad gan Mrs Lewis o hanes Sasiwn y Chwiorydd, a gynhaliwyd ar Fai 8 yng Nghaernarfon, pryd y cafwyd araith ddifur gan y Dr Gwenda Thompson o Lundain am ei thaith trwy Canada, hefyd cafwyd perfformiadau gan y côr ifanc talentog o Mizoram, sydd ar hyn o bryd ar deithiau efengylaidd trwy'r wlad.

Bydd trip yr Ysgol Sul i Lerpwl ddiwedd y mis, a bydd trip arall i Derby o Ddinorwig Mehefin 23 i weld y Ffynhonnau.

Cymerwyd ail ran y cyfarfod gan y Parch Trefor Lewis a ddangosodd ffilm ysgrthyrol 'Y Dieithryn' ac yna cafwyd trafodaeth ar y ffilm. Diolchwyd i Mr Lewis am ei wasanaeth.

Rhoddwyd y te gan Mrs Helen Jones. Bydd y cyfarfod nesaf nos lau Gorffennaf 5. Terfynwyd y cyfarfod gyda'r fendith dan ofal Mrs Delyth Thomas.

LLONGYFARCHIADAU a dymuniadau da oddi wrth ei deulu a'i gyfeillion, i Mr John David Evans, Maes-y-Dref, Clwt-y-Bont, ar ennill y Gadair yn Eisteddfod Gadeiriol Llandyrnog ar Fai 26. Pob llwyddiant eto iddo i'r dyfodol.

GŴYL GORAWL ERYRI

Nos lau Dyrchafael, yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis, cynhaliwyd Gŵyl i'r Oedolion. Eleni, cafwyd newid ar y dull traddodiadol, pryd y cafwyd Cymun Corawl. Traddodwyd y bregeth gan yr Hybarch T. Bayley Hughes, a hefyd yn bresennol roedd Deon Gwlad Arfon, y Parchedig Richard Jones, ynghyd â'r Parchedigion A. Jones Williams, Llanrug, Aled Edwards, Llandinorwig a Phenisarwaun, T. Erwyd Edwards, Bangor, R.M. Jones, Llanfairisgaer, D.P. Williams, Caernarfon ac R.E. Jones, Bangor.

Y prynhawn Sul canlynol, sef Mehefin 3, cynhaliwyd Gŵyl y Plant yn Eglwys Sant Padarn, i blwyfi Llanfairisgaer a Llanddeiniolen, Llanrug a Chwm y Glo, Llandinorwig a Phenisarwaun, a Llanberis, gyda'r Parchedigion Richard Jones (Deon Gwlad Arfon) ac Aled Jones Williams ac Aled Edwards yn gwasanaethu. Miss Alison Edwards o Eglwys Sant Padarn oedd wrth yr organ a'r Arholwr yn yr Adran Ysgrifenedig

oedd Mr Tegid Roberts o Blwyf Penisarwaun.

Roedd cant ac ugain o blant wedi cystadlu yn yr Adran Lafar a 53 wedi eistedd yr Arholiad Ysgrifenedig, a thros gant o blant wedi cystadlu yn yr Adran Gelf a Chrefft.

Cyflwynodd y Deon Gwlad dystysgrifau i 173 o blant ac eleni am y tro cyntaf rhoddwyd cwpan am y gwaith gorau, sef cwpan 'Er Cof' am y Diweddar Ganon Alun Jones, cyn reithor Llanberis. Yr enillydd eleni oedd Iolo Griffith o Ysgol Sul Llandinorwig a gafodd 97 o farciau allan o gant yn yr adran ysgrifenedig 10-12 oed. Yn ail gyda 95 o farciau roedd Alison Edwards o Ysgol Sul Sant Padarn, a cyflwynodd y Deon Gwlad darian i Alison. Rhoddwyd gwobr ariannol i bob un o'r plant a ymgeisiodd yn yr Adran Ysgrifenedig.

Cafwyd gŵyl gwerth chweil eleni eto ac roedd yn bleser cael clywed y plant a oedd wedi dysgu ar gyfer yr adrannau llafar yn cael cyfle i ddweud yr hyn a oeddynt wedi ei ddysgu yn ystod y prynhawn.



Alison Edwards, Y Parch Richard Jones a Iolo Griffith, enillydd Cwpan Goffa y Diweddar Ganon Alun Jones.



**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

Dysgwch yrru'r car gydag

**Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS**

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deul

**D L
PRITCHARD**
43 glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyr gan yr Adran
Drafnidiaeth

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)

LLONGYFARCHIADAU: i Martin Jones, Arosfa, Fron Gader ar gyrraedd ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

CYDYMDEIMLAD: Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â Mrs Heulwen Evans, Pengwern yn ei phrofedigaeth o golli ei thaid yn Rhosgadfan.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Edith Owen, Talgwynedd, sydd yn ysbty Mân ac Arfon. Hyderwn y caiff wellhad llwyr a buan.

Y CARNIFAL: Dyma weithgareddau'r wythnos:

Nos Lun - Bingo am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

Nos Fawrth - Disgo i'r plant am 6 o'r gloch

Nos Fercher - Helfa Drysor

Nos Iau - Dartiau yng Ngwesty Snowdon

Nos Wener - Chwaraeon yn y Cae Chwarae am 6.30 o'r gloch

Dydd Sadwrn - Y Carnifal am 2 o'r gloch

Nos Sadwrn - Disgo ym Mhlas Tan Dinas

PRIODAS YN INDIA'R GORLLEWIN: Ar Fai 26 1984 yn Georgetown, Grand Cayman, India'r Gorllewin fe briodwyd Rhiannon Wyn, merch Mr a Mrs W.R. Jones, 7 Dôl Afon a Hywel Wyn Jones, LIB., ACA., mab Mr a Mrs T. Jones, Rhosfryn, East Twil, Caernarfon.

Dymuna'r pâr priod ddiolch i bawb am eu cardiau a'u dymuniadau gorau. Byddant yn ymgartrefu yn y Gran Cayman hyd fis Tachwedd 1985.

LLONGYFARCHIADAU: i Dilwyn, Mab Mr a Mrs Alwyn Morris, Merddyn Ceunant (Glanbogelyn gynt) ar ennill tlws Chwaraewr Gorau'r Flwyddyn yn mhîm pêl-droed Llanberis. Dal ati Dilwyn.

CLWB POBL Y CWM: Dydd Iau Mai 24 mwynhawyd gwibdaith aelodau'r Clwb pan ymwelwyd â rhannau o Fôn. Cael awr o seibiant yn y Farchnad yn Llangefni yn y bore, ac yna ymlaen i Gaergybi, lle caed lluniaeth ac ychydig oriau i gerdded o gwmpas y porthladd. Yna dychwelyd yn ôl hyd y glannau, a galw am ychydig ym Miwmares, a phawb yn eu hwyliau gorau wedi cyrraedd gartref.

Cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor ddydd Iau, Mehefin 7. Croesawyd aelod newydd gan y llywydd, sef Mr Tom Owen, 1 Maes Gerddi. Hyderwn y bydd iddo fwynhau ein cwmniaeth am dymhorau i ddod. Cafwyd sgysiau byr gan amryw o'r aelodau

yn ystod y prynhawn, a darparwyd te gan y chwiorydd, oedd ychydig yn fwy uchelgeisiol nag arfer. Diolchodd y llywydd i bawb am eu cyfraniad a'u cydweithrediad yn ystod y tymor. Bydd gwibdaith i Landudno yn cychwyn y tymor newydd ddechrau Medi.

CERDDOROL - Llongyfarchiadau i Einir a Catrin Gwyn, Min y Nant, ar eu llwyddiant mewn arholiadau canu'r piano dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod, Llundain. Bu Einir yn llwyddiannus yn arholiad Gradd 3 a Chatrin yn arholiad Gradd 2 gydag anrhydedd.

PRIODAS - Dydd Sadwrn, Mai 26ain, priodwyd Sioned, merch Mr a Mrs Hubert Roberts, Bod Gwynedd a Tony, mab hynaf Mrs W. Martin a'r diweddar Mr J. Jones o'r Groeslon a llys fab Mr W. Martin, Treffynnon. Rhoddwyd y briodferch mewn priodas gan ei thad. Gwasanaethwyd yn Eglwys Sant Mihangel Llanrug gan y rheithor, y Parch Aled Jones Williams, a'r organydd oedd Mr John Morris, Llanrug. Y morynion oedd Miss Susan Owen (cyfnithr y briodferch), a Natasha Lee (nith y priodfab). Mr John Jones oedd y gwas priodas (brawd y priodfab) a'r ystlyswyr oedd Mr Melfyn Roberts (brawd y briodferch) a Mr David Jones (brawd y priodfab). Addurnwyd yr eglwys yn hardd iawn gan Mrs Dilys Jones, Hafan Elan, Llanrug.

Cynhaliwyd y wledd briodasol yn y 'Dingles', Dinas Dinlle, a daeth amryw yno i ddisco gyda'r nos hefyd. Mae Sioned yn gweithio yn Swyddfa Manweb yng Nghaernarfon, a Tony yn chwarel y Penrhyn, Bethesda. Byddant yn cartrefu yn Isfryn, Cwm-y-glo.

DIOLCH - Dymuna Sioned a Tony ddiolch yn fawr i bawb am eu caredigrwydd, a'u dymuniadau da. Derbyniasant lu o anrhegion gwerthfawr ac arian, a hefyd nifer fawr o gardiau.

MERCHED Y WAWR - Ar ddydd Sadwrn heulog braf ym Mehefin, bu'r aelodau ar Daith Ddirgel wedi ei threfnu gan Mrs Watkins a Mrs G. Chick. Cawsom weld rhan helaeth o Wynedd wrth ddilyn yr arfordir i lawr i'r pwynt mwyaf deheuol o'r sir yn Aberdyfi.

Cychwynnodd y daith gyda thipyn o hen chwedlau am Ddinas Emrys yn Nant Gwynant. Yna aethom cyn belled â Thalybont ger Harlech lle gwelsom Amgueddfa hynod o ddiddorol - hen geir a thaclau bywyd cefn gwlad ers dechrau'r ganrif.

Cawsom seibiant am ginio a siopio yn Nolgellau, wedyn ymlaen drwy Dywyn i weld eglwys Llangelynnin,

hen eglwys o'r ddeuddegfed ganrif ar lan y môr. Yno yr oedd bed Abram Wood, tad y Sipsiwn Cymreig. Ar ôl orig yn Aberdyfi cawsom baned a golwg ar y ganolfan grefft newydd yng Nghorris ar y ffordd adref.

Diolchwyd yn gynnes i'r trefnwyr gan y llywydd, Mrs Hannah Jones.

Yng nghyfarfod mis Gorffennaf, darperir rhaglen y gaeaf.

Dymunwn atgoffa'r aelodau y bydd gennym 'stondin pob dim' yn y Carnifal, Sadwrn Gorffennaf 7, ac y mae Mrs Watkins yn derbyn rhoddion at y stondin.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)

CERDDOROL - Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant mewn arholiadau canu'r piano dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod, Llundain: Gradd 6: Alwen Jane Jones, 1 Tai Orwig a Meinir Wyn Jones, 3 Trem Eilian. Gradd 4 gyda chlod: Caron Haf Jones, 1 Tai Orwig.

MARWOLAETH - Ar fore'r Llungwyn, Mehefin 11eg, bu farw Mrs Jennie Roberts, Ffrwd Goch, yng nghartref ei merch, Godre'r Coed, yn 80 mlwydd oed.

Hanai o un o deuluoedd hynaf y pentref, ac ar aelwyd Ffrwd Goch y bu'n trigo gydol ei hoes. Roedd yn hawddgar o natur ac yn gymeradwy a mawr ei pharch gan yr oll o'i chydabod. Adlewyrchid y gorau o'i magwraeth yn ei chymeriad a oedd o gefndir crefyddol a diwylliedig. Yn aelod ffyddlon o Eglwys MC Brynrefail, glynodd yn ddiwyro wrth egwyddorion Cristnogol, a châl fwynhad arbennig o drafod pynciau crefyddol, athrawiaethol a diwylliannol.

Bu'r angladd preifat yn y cartref ac ym mynwent Llanddeiniolen, ddydd Gwener Mehefin 15. Gweinyddwyd gan y Parch John Morris (Gweinidog), yn cael ei gynorthwyo gan y Parch Alan Wyn Roberts, Llangefni, a Miss Gwenda Jones, Caernarfon. Y cludwyr oedd Mri. J. Glyn Williams, Ifan Wyn Williams, Eirwyn Williams, Gareth Wyn Jones, Stanley Jones ac Iorwerth Madog Thomas. Y prif alarwyr oedd Mr Elfed Roberts (priod), a Miss Lowri Prys Roberts (merch). Hefyd yn bresennol yn yr angladd yr oedd cyfnithrod a chefnidryd, nithoedd a neiaint, aelodau eraill o'r teulu, teulu yng nghyfraith a chyfeillion. Cynorthwywyd yn y tŷ gan Mrs Phyllis Jones, Brynrefail a Mrs Rhiannon Roberts, Bontnewydd. Dymuna'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth ac am y rhoddion dderbyniwyd yn lle blodau tuag at Gronfa Deillion Gogledd Cymru a Chronfa'r Gweinyddesau Lleol.

Gwnaed y trefniadau angladdol gan Mr E.W. Pritchard, Llanberis.

CLWB Y MAMAU - Trefnwyd Helfa Drysor gan Liz Thomas ac Audrey

Roberts - Rhian Jones a Moira Ellis a fu'n fuddugol. Rhoddwyd anrheg y mis gan Pat Jones, ac fe'i enillwyd gan Helen Roberts. Darparwyd lluniaeth gan Moira Ellis a Jackie Jones.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Beth ac Eirianwen o Lanrug yn trafod a phrofi gwin cartref. Darparwyd y te gan Jinnie Williams a Jennie Hughes. Rhoddwyd anrheg y mis gan Carol Houston ac fe'i enillwyd gan Mrs Mair Griffiths.

CLWB PEDWAR UGAIN - Enillwyr mis Mai:

Mai 4 - 1 Dilys Jones, 2 Alwyn Roberts, 3 Meurig Jones.

Mai 11 - 1 Ken Jones, 2 John Selwyn Williams, 3 Mrs Mowll.

Mai 18 - 1 Gwyn Hefin Jones, 2 Dafydd Ellis, 3 Delyth Cae'r Bythod.

Mai 25 - 1 Jennie Hughes, 2 Helen Jones, 3 Carol Houston.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR


AR GAEL i unrhywun sydd yn cynnig cartref da a gwely meddal - 4 cath fach amddifad. Ffoniwch: Llanberis 871561.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

EGLWYS EFENGYLAIDD GWYRFAI

PREGETHWYR MIS AWST 1984

Dydd Sul Awst 2 - Y Parchedig Evan George, Dafen, Llanelli

Dydd Sul Awst 12 - Y Parchedig Emyr Roberts, Y Rhyll

Dydd Sul Awst 19 - Y Parchedig Dafydd Job, Llandrillo, Y Bala

Dydd Sul Awst 26 - Y Parchedig Sulwyn Jones, Dowlais, Merthyr Tudful

Cynhelir yr oedfaon am 10.30 y bore yn Ysgoldy Moreia, Groeslon Waunfawr, Waunfawr.

Am fanylion pellach, cysyllter â'r gweinidog, y Parchedig John Glyn, 2 Stad Tŷ Hen, Waunfawr. Rhif ffôn: **WAUNFAWR 782.**

CHWILOTA

(Bwriad y gyfres hon yw 'chwilota' i hen hanesion, chwedlau a digwyddiadau yn ardal bro'r 'Eco'. Esgryn sychion yn unig fydd y mwyafrif ohonynt, ond gobeithir cael mwy o gnawd ar ambell un gyda help y darllenwyr. Os oes gan unrhyw un sylw neu wybodaeth ar unrhyw destun yn y gyfres, byddwn yn falch o glywed gennych. Anfonwch eich cyfraniadau i'r Golygydd Erthyglau.)

"... i ben yr Wyddfa fawr"

Erbyn tua chanol y ganrif ddiwethaf roedd cerdded a dringo mynyddoedd wedi dod yn weddol boblogaidd, yn enwedig ymysg clerigwyr Anglicanaidd ac aelodau crachaid Prifysgolion Caergrawnt a Rhydychen, a rhai o ysgolion bonedd Lloegr. Yn ddigon naturiol, yn sgîl y cynnydd hwn mewn diddordeb ynglŷn â mynydda, daeth y galw am bobl leol i hebrwng yr ymwelwyr cefnog ar hyd llwybrau diogel i gopaon y mynyddoedd. Ceir sôn yn eithaf cynnar yn y ganrif ddiwethaf am fugeiliaid a mwynwyr lleol yn galw eu hunain yn 'Guides to Snowdonia'. Dyma gychwyn cyfnod o wneud arian ar gorn ymwelwyr.

Ymysg rhai o'r 'guides' cynnar hyn, daw enwau Robin Hughes o Gapel Curig a Harry Owen, Pen y Gwryd i'r amlwg. Roedd yr olaf hwn yn enwog iawn ymysg mynyddwyr y cyfnod - ond nid oherwydd ei allu fel 'guide', ond ei letygarwch yng Ngwesty Pen y Gwryd.

Tua 1830 cawn hanesion am fwynwr o'r enw Morris Williams yn taro ar syniad newydd a beiddgar iawn. Er mwyn ychwanegu at ei gyflog prin yng ngwaith copr y Clogwyn Coch, penderfynodd Morris Williams werthu te, bara a chaws i gerddwyr oedd yn teithio i gopa'r Wyddfa. Mae'n amlwg i'r fenter fod yn llwyddiannus o'r cychwyn cyntaf, oherwydd o fewn rhyw chwech neu saith mlynedd yn ddiweddarach aeth ati i godi cwt ar y copa a chynnis yr un lluniaeth; ond y tro hwn, roedd gwely ar gael hefyd i rai oedd am aros ar yr Wyddfa dros nos! Dywedir ei fod yn gwneud busnes mor dda fel y bu'n rhaid iddo gymryd parnter ato i'w helpu - gŵr o'r enw William Williams: ni wyddys a oedd yn berthynas iddo ai peidio. Credai Morris Williams mewn hysbysebu ei hun. Gwisgai ddillad o groen gafr, a het Robinson Crusoe. Nid oedd yn siarad nac yn deall Saesneg, ond o leiaf roedd yn tynnu sylw ato'i hun ac at ei fusnes llwyddiannus!

Ond nid oedd pobl leol eraill yn hir cyn sylweddoli fod arian i'w wneud ar gopa'r Wyddfa, a daeth gŵr o'r enw John Roberts i adeiladu cwt arall ar y copa a chychwyn busnes tebyg i un Morris Williams. Nid oes sicrwydd am ba hyd y

parhaodd y ddau yma mewn busnes, ond yr oedd y ddau gwt mewn bodolaeth ar droad y ganrif pan adeiladwyd gwesty ar y copa gan gwmni Rheilffordd yr Wyddfa.

Mae llawer o ddyfalu wedi bod hefyd ynglŷn â'r garnedd o gerrig ar gopa'r Wyddfa. Cred rhai mai dringwyr cynnar a osodai garreg ar y copa, ac mai felly y tyfodd y garnedd. Ond mae disgrifiad cynnar o'r copa yn ei ddisgrifio fel lle gweddol wastad: cylch o tua 40 neu 50 troedfedd, a wal gerrig isel o'i amgylch. Dywedir fod carnedd fechan o fewn y cylch hwn tua 1805.

Yn 1820 defnyddiwyd rhannau o'r wal i adeiladu "a vile and wretched hut" tua deg llath islaw'r copa. Tybed a yw'r dyddiad hwn yn gywir? A oedd cwt ar y copa cyn cyfnod Morris Williams?

Gŵr yr Ordnans (Ordnance Survey) a adeiladodd y garnedd gerrig fawr ar y copa, a hynny yn 1827, ond mae'n sicr fod cerddwyr a dringwyr wedi ychwanegu ati (a thynnu oddi arni!) yn ystod y blynyddoedd.

Diddorol fyddai cael gwybod mwy am hanes y 'guides' ar yr Wyddfa. Oes rhywun â gwybodaeth am y bobl leol a arferai gario pobl ddieithr i'r copa ar gefn merlod? Cofiwch anfon gair.

**COFIWCH -
NAD OES RHIFYN MIS
AWST O'R ECO
DAW ECO RHIF 95 O'R
WASG AWST 30**

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394**

**NORMAN
JONES**
4 Tai Disgwylfa
LLANRUG
Ffôn:
CAERNARFON 3476
**GLANHAWR
FFENESTRI**
* Siopau * Tai *
* Swyddfeydd *
Gwestai * Ffatrioedd
Yswiriant Llawn
Hefyd peintio - tu fewn a
thu allan

TAN-Y-COED

**Gohebydd: Miss Megan Humphreys,
4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)**

CYDYMDEIMLWN â Mrs Ceinwen Roberts, Ael y Bryn ar golli ei chwaer, Mrs Meinir Evans, Rhianfa, Caernarfon, - ein cydymdeimlad cywir â hi a'i brawd Mr Tudur Thomas, Cyffordd Llandudno a'r Cynghorwr Gethin Evans, Trefor, mab Mrs Evans a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

DIOLCH: Dymuna Mrs Roberts ddiolch am bob datganiad o gydymdeimlad a gafodd yn ei galar.

YSBYTY: Bu Siwan Humphreys, Pant Bryn Gwyn yn yr ysbty yn cael triniaeth lawfeddygol. Erbyn hyn mae adre'n ôl ac yn gwella'n dda. Ein dymuniadau da a'n cofion i chwi Siwan a chroeso adre. Daliwch i wella i chwi gael mynd ar gefn y beic newydd.

LLONGYFARCHIADAU: i Ffion Williams, Annwen Parry, Bethan Parry a Manon Evans a holl blant y cylch fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i John Elwyn Jones, Dolwen ar ennill oriawr am ateb cwestiwn ar raglen radio bore Sadwrn 'Ribidires'.

YSGOL SUL: Dyma lun o Ysgol Sul Tan-y-coed a'i chefnogwyr mewn mabolgampau gynhaliwyd trwy garedigrwydd Mr a Mrs Wynne, Gellioedd yn eu cae hwy. Trefnwyd y mabolgampau gan Miss Mary Williams gynt o 2 Tai Tan-y-coed ond sy'n byw yn awr yn Nhregarth.

Wedi'r mabolgampau cafwyd te parti yn y Festri - hyn i gyd yn lle'r trip Ysgol Sul blyneddol. Diwrnod i'w gofio ydoedd hefyd yng nghanol yr Ail Ryfel Byd.



SIBRYDION O'R YSGOLION YSGOL BRYNREFAIL

NEWIDIADAU AR Y STAFF: Croeso i Mrs Susan Evans sydd wedi dechrau ar ei swydd fel dirprwy-brifathrawes yn yr ysgol. Daeth Mrs Evans yma o Ysgol Maes Garmon, yr Wyddgrug.

Llongyfarchiadau hefyd i Mr Alan Ginsberg sydd wedi cael swydd barhaol fel athro celf yn yr ysgol. Yn gadael y tymor yma y mae Mr Gwynfor Ellis, sydd wedi bod yn athro arlunio yma am flwyddyn. Hefyd mae Mrs Siân Williams a Mrs Linda Jones yn ein gadael ar ôl bod yma dros dro. Pob lwc i'r tri yn y dyfodol.

DIOLCH BETHAN: Daeth blwyddyn Bethan Hughes o Lanberis, fel gweithiwr cydwybodol ar dudalen ysgolion yr 'Eco' i ben. Y mae Bethan yn sefyll arholiadau lefel 'A' mewn Saesneg, Cymraeg a Ffrangeg eleni, ac yn gobeithio gwneud gradd os yn llwyddiannus. Diolch Bethan am dy waith ardderchog bob amser a phob lwc yn yr arholiadau ac yn y dyfodol.

Delyth Jones a Susan Morris o Lanrug fydd yn gwneud y gwaith yn ystod y flwyddyn nesaf. Croeso i'r ddwy i'r 'Eco'.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD: Graham Williams, Llanrug, cyntaf ar yr unawd corn dan 15 oed. Dymuna parti Helen Mai ddiolch i Mrs Esyllt Morris Jones am eu hyfforddi ar gyfer yr Eisteddfod. Daeth y parti'n ail am adrodd 'Darn o Symffoni'.

CHWARAEON

Mae'r gweithredu gan athrawon wedi cael cryn effaith ar raglen chwaraeon yr ysgol y tymor yma. Mae cyfarfodydd Athletau Arfon, Gwynedd a Chenedlaethol i gyd wedi eu gohirio a does yr un gêm griced wedi cael eu chwarae. Er hynny mae rhai o ddisgyblion yr ysgol wedi bod yn gwneud enwau iddynt eu hunain yn y byd chwarae.

CRICED

Mae Stephen Owen (Cwm-y-glo), Gwyn Morris (Ceunant) a Peter Sharp (Bethel) wedi bod yn chwarae yn rheolaidd i dim criced Fron Dinas sy'n chwarae yng Nghynghrair Gwynedd. Mae Stephen Owen hefyd yn aelod o dim ieuencid Clybiau Sir Gaernarfon.

I dim ieuencid Bethesda mae Stuart Williams (Llanrug) yn chwarae. Er bod Stuart ddim ond 14eg oed mae'n barod wedi chwarae un gêm i dim cyntaf Bethesda. Fe sgoriodd naw rhediad heb fod allan yn y gêm honno yn erbyn tîm o Loegr a oedd yn teithio o gwmpas Gogledd Cymru.

ATHLETAU

Mae Michael Roberts, (Cwm-y-glo) wedi ymuno â chlwb athletau Bae Colwyn ac mae'n ymarfer yn rheolaidd bob wythnos ym Mangor. Tra'n cystadlu gyda Chlwb Bae Colwyn ym Mhen Bedw yn ddiweddar fe daflodd y Pwysau 14.68 metr - record ysgol newydd a'r gorau mae Michael wedi daflu erioed.

COFIO TRYWERYN

Mae Gareth Roberts o Lanrug yn dilyn cwrs gradd mewn ffilmio a ffotograffiaeth yn Falmouth. Fel rhan o'i gwrs gwnaeth ffilm ar hanes Tryweryn; ffilm a ddangoswyd mewn arddangosfa ffilmiau a ffotograffau yn y Spacex Gallery, Exeter yn ystod mis Mai eleni. Hon oedd yr ail ffilm o'i eiddo, ond y gyntaf iddo ei chynhyrchu ar ei ben ei hun.

Gwnaeth ei ffilm gyntaf ar y cyd gyda myfyriwr o Lundain, Mark Waite; a chostiodd y cyfan tua £600 iddynt. Ffilm yn dwyn y teitl 'Y Camgymeriad Cyntaf' ydoedd, ac fe'i cynhyrchwyd yn Gymraeg, Saesneg ac Almaeneg. Fe'i ffilmwyd ar Bodmin Moor, yn Swydd Henffordd ac ar lethrau'r Wyddfa yn ystod y gaeaf. Mae'n dri chwarter awr o hyd, ac fe'i dangoswyd ym mis Gorffennaf y llynedd yn y 'Ffilm-makers Co-operative Summer Show' yn Llundain. Gareth a'i bartner oedd yn gyfrifol am y gerddoriaeth yn y ffilm honno hefyd.

Ar gyfer ei ail ffilm, sef Hanes Tryweryn, penderfynodd Gareth gasglu hen ddarluniau o Gwm Tryweryn fel ag yr oedd cyn cael ei foddi. Dyma fyddai cynnwys y rhan gyntaf o'i ffilm. Ar gyfer yr ail ran, penderfynodd ar yr un golygfeydd yn union â'r rhan gyntaf – ond wrth gwrs, roeddynt bellach o dan ddŵr. Roedd hyn yn golygu plymio i mewn i Lyn Tryweryn a defnyddio camerau tan-ddŵr.

Cyfaddfodd Gareth nad oedd digon o arian ganddo i gynhyrchu

ffilm arbennig o dda, ond daeth newyddion calonogol iddo yn dilyn arddangos y ffilm yn y Spacex Gallery, Exeter. Yno yn edrych ar y gwahanol eitemau roedd cynhyrchydd o un o gwmnïau annibynnol S4C, sef Michas Koch o Gwmni Taliesyn, Caerdydd. Gwnaeth y ffilm argraff arno, a chysylltodd â Gareth gan gynnig cymorth iddo i ailwneud y ffilm gyda'r posibilrwydd o gael ei ddangos ar un o raglenni S4C yn ystod y gaeaf.

Gyda chymorth Cwmni Taliesyn yn gefn iddo, bwriad Gareth yw gwneud ffilm llawer iawn manylach o ran gwybodaeth am Gwm Tryweryn, yn enwedig am y cyfnod cyn y boddi. Byddai felly yn ddiolchgar dros ben pe bai unrhyw un sydd ag atgofion am Dryweryn a'r fro yn cysylltu ag ef. Ei gyfeiriad: **Gareth Roberts, Ceris, Lôn Groes, Llanrug.**

Yn dilyn gwyliau'r haf bydd mwy o hanes rhai o ymchwiliadau Gareth a'i gamera – y tro hwn ar drywydd ysbrydion, llwybrau claddu a beddau 'skull and crossbone' – i gyd o ffilm bro 'Eco'r Wyddfa'.



Dau o blant ardal Tryweryn cyn y boddi. Llun a ddefnyddiwyd gan Gareth Roberts yn ei ffilm "Cofio Tryweryn".

DOSBARTH AMBIWLANS LLANRUG – 1929

Dyma enwau'r rhai a gofias o'r Dosbarth Ambiwylans. Yr oeddyddau ddosbarth, dynion a merched yn cael eu cynnal ar wahân – yn cael eu hyfforddi gan Mr Robert Jones, Tŷ Capel Sardis, Dinorwig, a'r meddyg o Lanberis, y Doctor Idwal Wynne Jones, a Nurse Closs Evans o Gwm-y-glo.

Diwrnod mawr fyddai dydd yr arholiad. Cynhelid ef yn y Neuadd Coffa, a'r Arholwr oedd meddyg o Fangor.

Nid oedd yn ieuanc iawn, ac yn drwm ei glyw, lwcus i'r rhai fyddai'n aros tu allan i'r ystafell ar ôl i'r gyntaf fynd i mewn. Yr oeddem yn clywed yr atebion yn glir, aherwydd diffyg clyw y meddyg. Gan fy mod yn ysgrifenyddes i'r Dosbarth Merched gallaf roi eu henwau hwy'n weddol gywir, ond mae dau o'r meibion allan o'm cof.

Dyma'r merched:

Rhes gefn: Mrs Achsah Williams, Llaingro, Miss L. Clarke, Isgaer (rwan), Mrs L. Grace Owen, Isallt, Mrs Pritchard, Penllel, Mrs M. Alice Jones, Tegfryn, Mrs A. Jones, Eilionwy (Ysg.).

Ail res: Gwraig wadd? Mrs Jemima Thomas, Rhianfa, Mrs Jones, Llwyn Onn, Mrs Davies, Plastirion Terrace, Dr I. Wynne Jones, Llanberis, Nurse Closs-Evans, Mrs Lizzie Roberts, Shop Baker, Mrs D.S. Williams, Bryn Awelon, Mrs A. Jones, Penrhosddu, Mrs Dr Wynne Jones.

Dyma'r meibion – Rhes gefn: Y Mri. Evan J. Hughes, Bod Ifor, Moi Parry (Canada rwan), Daniel Lewis, Talysarn, Cwawia, ?, Hugh R. Jones, Llanberis rwan, Hughie Green,

Pandy, Ellis Ifor Hughes, Bwthyn, William Jones, Tegfryn, Robert Jones, Tŷ Capel Sardis, Dinorwig, William T. Williams, Llys Iolen. Dr Idwal Wynne Williams yng nghanol y merched.

Rhes flaen: Y Mri D.S. Williams, Bryn Awelon, J. Hughes, Craig Dinas, ?, Hugh Jones, Cae Poeth.

Gallaf sicrhau mai dim ond dwy chwaer sydd yn fyw sef: Mrs L. Clarke, Isgaer a finna, Annie Jones, Eilionwy.

Credaf fod 3 neu 4 o'r dynion yn fyw: Y Mri Moi Parry, Daniel Lewis, hwyrach y nesaf ato a Mr Hugh Richard Jones, Llanberis.

Diolch i Mrs A. Jones, Eilionwy am yr hanes a'r enwau. Gol.

DINORWIG

Gohebydd: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

CYDYMDEIMLAD: Pasiodd aelodau Eglwys M.C. Dinorwig eu cydymdeimlad llwyrat â Mrs Eunice Price Wynne, a'r teulu yn eu profedigaeth lem a sydyn ym marw y Parch J. Price Wynne. Bu'r diweddar Barch J. Price Wynne yn weinidog ar eglwys Dinorwig a Chefnysaun am tua 14 mlynedd. Aeth nifer o gyfeillion yr ardal i'r angladd yn Ninbych ar Fehefin 4.

CYFARFOD PREGETHU: Cynhaliwyd Cyfarfod Pregethu Eglwys Sardis (B) Dinorwig ar y Sul Mehefin 10. Pregethwyd gan y Parch W. Môn Williams, Brynman gydag arddeliad.

BORE COFFI: Cynhaliwyd Bore Coffi yn y Ganolfan gan Gymdeithas Meithrin y Fam a'i Phlentyn ar Fehefin 7. Cafwyd cynulliad da yno.

DYMUNO'N DDA: Dymunir yn dda i Miss J. Netta Williams, Padarn

Stores, y Fachwen, ar ei hymadawiad i Gaernarfon i fyw.

DIOLCH: Dymuna Grŵp Meithrin y Fam a'i Phlentyn, Dinorwig ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth hael a charedig i'r Bore Coffi ar Fehefin 7 yn y Ganolfan. Diolch yn fawr. – Mrs Sarah Anderson, Penyrallt, Trefnydd.

COFION: Anfonwn ein cofion at bawb sy'n cwyno'n eu cartrefi y dyddiau hyn. Brysiwch wella.

ADFERIAD BUAN: Dymunir adferiad buan i Mrs Dilys Williams, Bron Eilian, Dinorwig wedi iddi gael damwain i'w throed. Brysiwch wella.

CEUNANT

LLONGYFARCHIADAU: i Dilwyn, mab Mr a Mrs Alwyn Morris, Merddyn, Ceunant ar ennill tlws Chwaraewr Gorau'r Flwyddyn yn nhîm pêl-droed Llanberis. Dal ati Dilwyn.



STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis **871210**

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol. **Arddangosfa o hen luniau chwarel.**

Ar agor 9.30 am - 9.30 pm

Galwch i weld Gwyl wrth ei waith ym Mharc Padarn, Llanberis

Wil a Val Guy TREFLYN STORES BETHEL

Ffôn: Y Felinheli
670237

Stoc helaeth o ddillad plant

Legwarmers
Anklewarmers

Snwcer – sialc, tips
Ciws Rilec – a byrddau hefyd
os dymunwch

Teganau, Diodydd, Melysion,
Bwydydd a Dafedd

G. JORDAN

CEFN ELAN LLANRUG

I fenthyg
cymysgwyr
concrit, cludo
llwythi ysgafn,
clirio safleoedd a
sbwriel ac am
dywod, gro, brics
ynghyd â gwaith
trydanol fel o'r
blaen

Ffoniwch:

**CAERNARFON
3581**

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Dydd Sadwrn Mehefin 9 aeth aelodau'r Gymdeithas ar daith hanesyddol yng nghwmni'r Parch a Mrs John Morris i Fôn.

Cafwyd diwrnod hyfryd i deithio, gan gychwyn yn Eglwys Sant Credifael, Penmynydd, lle cafwyd braslun o hanes yr eglwys, y gofodail i Gronw Tudur a'i wraig Myfanwy, y bedyddfaen, a'r ffenestr hardd.

Aethpwyd ymlaen wedyn i Benmon gan aros yn Eglwys Sant Seiriol, Y Priorddy, y ffynnon a'r Colomendy.

Oddi yno i fynwent Llanfaes i weld bedd dau o broffwydi'r Methodistiaid Calfaidd, sef y Parch John Williams, Brynsiencyn a'r Parch John Elias o Fôn.

Wedi pryd o fwyd blasus yn Cornelyn Manor, gorffennwyd y daith ym Miwmares cyn cychwyn adref.

Talwyd diolch i'r Parch a Mrs John Morris ac i'r swyddogion gan y Parch W.O. Roberts, Manod.

Cydymdeimlir â Mrs Anne Owen, 26 Bro Rhyddallt a'r teulu yn eu profedigaeth o golli ei thad yn Neiniolen.

Trefnwyd trip plant Ysgol Sul Pontrhythallt a Than-y-coed ddydd Sadwrn y 30ain i Butlins. Bydd y bws yn cychwyn am hanner awr wedi naw.

CYMDEITHAS HEOSTOMY PRYDAIN AC IWERDDON:

Dyma ganlyniadau'r raffl a dynnwyd yn Ysbyty Glan Clwyd, Mehefin 9 at y gymdeithas uchod.

1. £10: E. Morgan, 2 Tudor Ave., Y Rhyl; 2. £5: Dave Parry, 11 Rivulett Rd., Wrexham; 3. Potel Whisgi: Mrs Bogle, Kalanuda, Reading; 4. Doli: Jones, Garn, Llandrillo, Corwen; 5. Bocs Siocled: Mr Todd, Surgeon, Ysbyty Maelor.

Diolch yn fawr iawn i bawb fu'n gwerthu a phrynu'r tocynnau. — Eirwen Rowlands, Llys Forgan.

UN A ANED ac a fagwyd yn Llanrug oedd y ddiweddar Mrs Meinir Evans, Caernarfon, gweddwr Mr Sadie Evans, gynt o Ardwyn, Llanrug. Yr oedd Meinir yn ferch i Mr a Mrs Owen Thomas, Rhianfa, Pontrhythallt, ac yn un o blant Capel Mawr, Llanrug. Gwnaeth ddiwrnod da o waith yn gofalu i ddechrau yng nghartref y Deillion Abergele ac yna yng nghartrefi'r henoed, Plas y Coed, Bangor a Phlas Maesincla, Caernarfon. Cydymdeimlwn â'i mab, Gethin Evans, ac â'i chwaer, Mrs Ceinwen Roberts, Tan-y-coed a Mr Tudur Thomas, Cyffordd Llandudno.

MERCHED Y WAWR: Gyda'r nos, Mehefin 5, aeth y gangen ar wibdaith i Ynys Môn. Yn disgwyl amdanom yn eglwys Penmynydd yr oedd Mrs Helen Ramage, yn barod i roi inni hanes 'Tuduriaid Penmynydd'. Dechrau gyda hanes Goronwy ab Tudur y gwelir cofeb alabastr iddo yn yr eglwys. Roedd Goronwy a dau o'i frodyr yng ngosgordd bersonol Rhisiart yr Ail, brenin Lloegr, a bu tri o'i bum brawd yn bleidwyr blaenllaw i Owain Glyndŵr. Boddodd Goronwy yng Nghaint yn 1382 a dygwyd ei gorff adref i Gymru i Abaty'r Brodyr Llwydion. O amser Goronwy trosglwyddwyd y stâd o fab i fab yn y teulu am gyfnod o saith cenhedlaeth. Owain, ŵyr Goronwy oedd y cyntaf i fabwysiadu'r cyfenw Tudur, gan iddo fynd i Lundain a phriodi Catherine o Valois, gweddwr brenin Harri'r Pumed. Daeth Edmwnd, eu mab, yn Iarll Richmond a phriodi â'r Arglwyddes Margaret Beaufort. Eu mab hwy, wedi hynny, a ddaeth yn

frenin cyntaf y Tuduriaid, fel Harri'r Seithfed.

Yr olaf i ddwyn yr enw Tudur Penmynydd oedd Richard Owen a fu farw yn ddi-blant. Aeth y stâd i feddian t ei chwaer, gwraig Rowland Bulkeley, Porthamel. Eu mab, hwy sef Francis Bulkeley, a etifeddodd stâd Penmynydd, ond trwy ei afradlondeb aeth y cyfan i feddiant stâd Baron Hill.

Wedi cael golwg ar yr eglwys a sylwi ar y ffenestri bychain, y drws a'r bedyddfaen, aethom ymlaen i'r Plas. Cawsom fod y tŷ ar hanner ei adnewyddu i'w adfer i'w hen ogonaint yn oes teulu Bulkeley. Difyr fyddai mynd yn ôl yno rhywbryd i'w weld wedi ei orffen.

Mynegwyd ein gwerthfawrogiad o gyfraniad godidog Mrs Ramage gan y llywydd, Mrs Ann Llwyd.

Cawsom swper blasus yng Ngwesty Rhostrefor, y Benllech. Roedd y trefniadau yng ngofal yr ysgrifennydd, Mrs Margaret Parry, a thystiodd pawb iddynt fwyhau'r noson yn wych. Cydymdeimlwyd â Mrs Menna Williams yn ei phrofedigaeth o golli ei thad ac â Mrs Ceinwen Roberts ar golli ei chwaer.

Gan mai hon oedd y noson olaf inni gyfarfod y tymor hwn, manteisiodd Mrs Bethanne Williams ar y cyfle i dalu diolch i'r swyddogion, Mrs Ann Llwyd a Mrs Margaret Parry, am eu gwaith canmoladwy dros y ddwy flynedd hyn.



PRIODAS: Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Elaine Williams, Llys Llywelyn a Gwilym Jones, ar eu priodas yn Eglwys Sant Mihangel ddydd Sadwrn, Mehefin 2. Byddant yn cartrefu yn Glanffrwd, Ffordd yr Orsaf.

SWYDD NEWYDD: Llongyfarchiadau i Mr Twrog Jones, 23 Glanffynnon ar ei benodiad yn Ddirprwy-brifathro yr Ysgol Gynradd, Llanrug.

MARW: Yn Ysbyty Môn ac Arfon ar Fehefin 5 bu farw Mr Idwal Gwynfor Pugh, 14 Glanmoelyn. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, ei feibion, a'i ferched a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

EISTEDDFOD YR URDD: Llongyfarchiadau i'r canlynol o'r Ysgol Gynradd ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yr Wyddgrug. Parti Cerdd Dant (1af); Ffion Jon Williams, 1af — Unawd 10-12 oed; Parti Unsain: Parti'r Bechgyn 3ydd. Hefyd i Graham Williams, Tegfan, Ffordd yr Orsaf a ddaeth yn fuddugol yn yr Unawd Offerynnau Pres dan 15 oed.

CYFARFOD CHWIORYDD: Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd yn Festri Pontrhythallt pnawn lau, Mehefin 21. Llywyddwyd gan Mrs Williams, Bod Fair a chafwyd gwasanaeth bendithiol o hanes daucanmlwyddiant Mary Jones o Lanfihangel, mewn deialog gan Mrs N. Pritchard, Glanfa a Mrs E.W.

Thomas, Dolwar. Cafwyd unawd gan Mrs Pritchard, o'r emyn 'Dyma Feibl annwyl Iesu' ac ymunodd pawb i gloi'r gwasanaeth trwy ganu'r emyn. Rhoddwyd y te gan Mrs G. Pritchard, Cwm-y-glo a Mrs J. Parry, Bro Rhythallt, a diolchwyd iddynt gan y llywydd ac eraill. Cymerwyd y gwasanaeth dechreuol gan Mrs A. Smith, Llechwedd. Bydd y cyfarfod nesaf fis Gorffennaf 19 am 2.30 o'r

gloch.

CERDDOROL: Llongyfarchiadau i Elen Wyn Roberts, 7 Afon Rhos ar ei llwyddiant mewn arholiad canu'r piano Gradd 4 dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod, Llundain.

LLONGYFARCHIADAU: i Pat a Berwyn, 59 Glanffynnon ar enedigaeth bachgen — brawd bach newydd i Ceri.

Gwibdaith y Gymdeithas Undebol.



Aelodau'r Gymdeithas Undebol y tu allan i Eglwys Penmynydd.

SAFONAU 1 a 2, YSGOL BRYN ERYR (1922)



Rhes gefn: Bob Williams, Tomi Jones, Huw Lloyd Roberts, Huw Aubrey, John Elias Pritchard, Richard Pritchard, Huw Jones, Huw Owen Jones, Jack Ellis, Miss E.C. Roberts.

Rhes ganol: Nancy Violet Pritchard, John Ellis Jones, Nellie Pritchard, Greta Roberts, Nellie Williams, Enid Whiteside Jones, Gwennie Parris, Nellie Haslam, Elizabeth Jones.

Rhes flaen: Huw Owen Jones (Angorfa), Buddug — Williams, Gracie Pritchard, Amy Whiteside, Jennie Maud Thomas, Mary Kate Jones, Jennie Humphrey, Eleanor Jones (Bonc), Katie Davies, Mair Green, Megan Williams.

CYMORTH I'R SEFYDLIAD



Mr R.T. Pritchard, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanrug yn cyflwyno sic o £200 ar ran y cyngor i Mr W.J. Griffith, ysgrifennydd y Sefydliad Coffa.

HEL EU TRAEU


Nos Wener Mehefin 29 cynhelir Helfa Drysor ar Droed. Cychwynnir am 6.30 pm o giât gefn Ysgol Gynradd Llanrug a gobeithir y gall pawb gyrraedd y Foelas yn ddiogel rywdro cyn hanner nos! Tâl am gynnig — oedolion 20c, plant 10c. Bydd yn y Foelas i'r rhai sydd eisoes wedi ei archebu.

DINORWIG (Parhad)

LLWYDDIANT: Llongyfarchiadau i Mr Kelvin Fleming, Porthaethwy gynt o Maes Eilian am ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth 'Arlunio Agored' yn Eisteddfod Môn yn ddiweddar. Mae Kelvin wedi ennill sawl gwobr am arlunio yn Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol pan oedd yn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

KY 4440



KY 4440! Tybed ydi'r rhif cofrestru yna'n canu cloch i bobl Llanberis a'r cylch? Edrychwch ar y llun o'r Rolls Royce gwyn a chrafwch eich pennau!

Car o Lanberis ydyw fu'n eiddo i deulu Pritchard, Central Garage am flynyddoedd lawer, ond mae'n debyg mai fel car du y byddwch chi'n cofio amdano.

Roedd rali benwythnos yn Llandudno'n ddiweddar wedi ei threfnu gan berchnogion ceir Rolls Royce ac ymhlith y Saeson crand uchel ael 'roedd teulu o Gymry Cymraeg o Ddyffryn Conwy gyda nid un, ond dau Rolls Royce! Mr Norman Roberts y trefnwr angladdau o Eglwysbach yw perchennog y ddau ac ef ei hun oedd yn gyrru'r cyntaf a Robin, ei fab yn gyrru'r llall – un car gwyn ac un car du! O Lanberis o'r un garej y daeth yr un du hefyd.

Car a adeiladwyd ym 1933 yw'r un gwyn a welir yn y llun, model 20-25 h.p. ac fe gymerodd dros dair blynedd o waith i'w adnewyddu.

Diwrnod y rali oedd y trip cyntaf i'r car ac 'roedd yn werth ei weld yn sgleinio fel – wel fel beth ond Rolls Royce!

Yn ystod y tair blynedd bu'n rhaid tynnu'r injian allan a gweithio arni ac ailwneud y tu mewn i gyd. Yna'n goron ar y cyfan ei beintio'n wyn i'w wneud yn destun edmygedd y cannoedd o bobl fu'n edrych arno ar y promenâd yn Llandudno.

Pwy a wŷr, efallai y daw yn ôl i Lanberis rhyw ddiwrnod!

GARETH PRITCHARD (Tan-y-coed gynt)
Llandudno

PARTI MERCHED YN GWNEUD RECORD

Roedd dydd Sadwrn a dydd Sul, Mehefin 9 a 10, yn ddyddiau pwysig iawn yn hanes parti merched Lleisiau'r Gweunydd. Treuliodd y genod eu penwythnos yn Stiwdio Cwmni Recordiau Sain ger Llandwrog yn recordio 17 o ganeuon i'w cynnwys ar gasét breifat. Mae'r genod yn gobeithio'n arw iawn y bydd y casét ar gael erbyn canol Gorffennaf.

Mae Lleisiau'r Gweunydd yn barti o ferched o bentrefi bro'r Eco sydd yn cael eu hyfforddi gan Einir Wyn Owen, Rhiwlas. Mae'r parti yn cynnwys 3 merch o Rhiwlas, 4 o Ddeiniolen, 10 o Benisarwaun, 3 o Lanrug, 1 o Lanberis, 1 o Gaernarfon, 1 o Fangor a 2 o Ynys Môn.

Bydd y casét yn cynnwys tri chwarter awr o ganeuon – alawon gwerin, caneuon o nifer o wahanol wledydd wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg; caneuon traddodiadol a modern. Yn ogystal â chaneuon gan yr aelodau i gyd, bydd rhai unawdau.

Islwyn Williams, Penisarwaun (sydd yn enwog trwy Gymru gyfan am ei luniau adar) sydd wedi cynllunio clawr y casét. Bwriad y merched yw sicrhau y bydd cyflenwad o gasetiau ar gael yn eu

cyngherddau o hyn ymlaen. Neu fe ellir cysylltu ag ysgrifenyddes y parti, Mary Elliott, Crud y Wawr, 3 Bryn Eglwys, Penisarwaun (ffôn: Llanberis 872438).

Mae'r Parti'n dymuno diolch yn fawr iawn i Gareth ac Eryl, aelodau o staff Cwmni Sain am eu cefnogaeth, eu hamynedd a'u cymorth yn ystod penwythnos y recordio. Profiad eithriadol o ddiddorol oedd bod yn rhan o broses gymhleth gwneud record a hynny mewn stiwdio sydd gyda'r gorau yn Ewrop gyda chyfleusterau a pheiriannau o safon uchel iawn.

Eisoes mae nifer o bobl yn y fro wedi mynegi diddordeb yn y casét ar ôl clywed y genod yn canu, felly brysiwch i gysylltu â Mary i sicrhau eich copi chi. "Y cyntaf i'r felin!" (Y llun gan Islwyn L. Jones, Lanrug – diolch iddo.)



EISTEDDFOD LLANRUG

Ar fin dod allan o'r wasg mae rhaglen Eisteddfod Gadeiriol Llanrug a gynhelir yn neuadd Ysgol Brynrefail brynhawn a nos Sadwrn Hydref 13.

Unwaith yn rhagor bydd amrywiaeth o gystadlaethau i blant ac oedolion. Y testunau llenyddol sy'n agored i'r byd yw:

Cystadleuaeth y gadair: Cerdd neu ddilyniant o gerddi – caeth neu rydd heb fod dros 100 llinell. Testun 'Yr Haid'.

Englyn: 'Niwl'.

Englyn Ysgafn: 'Pync Rocyr'.

Telyneg: 'Ffrwd'.

Limrig ar y thema digywilydd-dra.

Cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith:

Stori Fodern wedi ei seilio ar hen chwedl.

Ysgrif: 'Wynebaw'.

Stori fer ddigrif: Agored.

Traethawd ar unrhyw agwedd o hanes lleol bro Eco'r Wyddfa (ac eithrio chwarelyddiaeth yn uniongyrchol).

Y beirniaid yw:

Cerdd a Cherdd Dant: Rhys Jones, Rhuddlan. **Adrodd:** Alun Jones, Aberystwyth. **Barddoniaeth a rhyddiaith:** Rhiannon Davies Jones, Porthaethwy. **Traethawd:** John

Owen Huws, Caernarfon. **Arlunio:** Frank Greene, Pontrug. **Gwaith tri dimensiwn:** Stephen Breese, Llanfaglan. **Gwau, coginio a gwnio:** Myfanwy Williams, Rhosbodrual. **Ffotograffiaeth:** Islwyn L. Jones, Lanrug. **Dawnsio gwerin:** Judith Harding, Porthaethwy. **Cyfeilydd (pnawn a hwyr):** Annette Bryn Roberts, Dinorwig. **Telynores:** Megan Roberts, Lanrug.

Manylion llawnach yn y rhaglen pris 10c, neu 25 drwy'r post, oddi wrth **Mary Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (Caernarfon 5605)** neu **Mair Lloyd Huws, Cilmeri, Llanrug (Caernarfon 77163)**.

TYNNU LLUNIAU

Mae camerau'r Eco ar gael i unrhyw un sy'n dymuno tynnu llun o achlysur neu ddigwyddiad addas ar gyfer y papur.

Mae hyd yn oed y golygyddion yn medru defnyddio'r camera diweddaraf sy gennym. Does dim byd haws!

Felly meddyliwch o ddifrif ynglŷn â'r pethau perthnasol fydd yn digwydd yn y dyfodol agos ac yna cysylltwch â Gwyndaf Hughes, 21 Glanffynnon, Llanrug, Caernarfon 77163 ynglŷn â chael benthyc y camera.

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwig 670726)

YR YSGOL FEITHRIN: Cafwyd cefnogaeth ardderchog i'r Noson Goffi gynhaliwyd nos Wener, Mehefin 8, a gwnaethpwyd elw o dros £100 i'r ysgol. Enillwyd y ddol, a roddwyd gan Mrs Eluned Davies, Eran, gan Mrs Gwyneth Jones, Y Fachell. 'Eiry' oedd ei henw. Mrs Elisabeth Jones, Tyddyn Oer ddyfalodd yn gywir mai 107 o 'jelly babies' oedd yn y jar. Diolch yn fawr i bawb am eich cefnogaeth hael.

NEUADD GOFFA BETHEL: Yn dilyn llythyr dderbyniwyd gan Glerc Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen yn mynegi ei bryder nad oedd y Neuadd yn cael y parch dyladwy, cynhaliwyd pwyllgor ar y cyd rhwng cynghorwyr Seion a Bethel a phwyllgor y Neuadd. Wedi trafod llythyr Mr Griffith penderfynwyd ceisio datrys y broblem beiciau o gwmpas y lle drwy gloi'r giât fel na ellir mynd mewn cylch o gwmpas y Neuadd. Mynegwyd pryder gan sawl aelod y gallai ddamwain ddifrifol ddigwydd wrth i blant ddod allan i'r ffordd dro ar ôl tro wrth chwarae fel hyn. Gosodwyd amserau agor y Clwb Snwcer ar y drws fel na fydd gofyn i neb loetran o gwmpas yn disgwyl i'r clwb agor.

Rhodddwyd hwb arall i'r gronfa i dalu am y gwelliannau sydd eu hangen gan y daith gerdded fu ddiwedd mis Mai. Daeth tua 25 ynghyd i gerdded ar hyd y llwybrau o Gapel Cysegr i Landdeiniolen a Phen Dinas cyn dychwelyd adref i Fethel heibio Cae Meta i Erw Fforch ac ar draws caeau Llwyn Bedw. Eisoedd casglwyd dros £60 ac y mae gobaith am ragor! Ffordd ddifyr iawn o dreulio gyda'r nos braf a chodi ceiniog i'r Neuadd.

MERCHED Y WAWR: Daeth gweithgareddau'r gangen i ben am y flwyddyn nos Fercher Mehefin 14 gyda thaith ddirgel wedi ei threfnu gan y swyddogion. Cafwyd noson ddifyr iawn yn ymweld â Chastell Gwydr, Llanrwst ac yna i Blas Maenan am swper. Diolchodd y llywydd, Mrs Ann Hopcyn Evans i'w phwyllgor am flwyddyn lwyddiannus a hapus iawn a dymunodd yn dda i Mrs Glenys Griffiths a'i phwyllgor newydd am flwyddyn lwyddiannus eto'r flwyddyn nesaf.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr a Mrs M. Williams, Noddfa, ar enedigaeth eu trydydd mab.

— i Mr a Mrs I. Morgan, Bryn Alun ar enedigaeth merch fach.

— i Mr a Mrs G. Owen, Snowdonia ar enedigaeth mab bychan.

EISTEDDFOD BETHEL A'R CYLCH: Cynhelir yr eisteddfod bnawn a nos Sadwrn, Tachwedd 3ydd, 1984. Y beirniaid eleni fydd: Cerdd — Einir Wyn Owen, Rhiwlas, Llên ac Adrodd — Mr Gwilym Hughes, Llandwrog; Arlunio — Mr G. Gainsburg, Bethel; Ceginio a Gwaith Llaw — Mrs E. Moses, Caegellio.

Mae'r testunau ar gael yn awr yn y post, siop Trefflyn neu gan Myfanwy Jones, Glan Gors, Bethel — yr un rhai ydynt a dynnwyd ar gyfer Eisteddfod, Tachwedd 12, 1983.

Cynhleir cystadlaethau Ceginio a gwaith llaw nos lau, Tachwedd 1af 1984 yn y Neuadd Goffa.

Bwriedir yn ystod mis Medi gwneud ymgyrch i godi arian at yr eisteddfod gan fod y coffrau'n isel. Os oes unrhyw un yn awyddus i roi cyfraniad at yr eisteddfod a fuasech cystal â chysylltu â Mr Dafydd Williams, Hafod, Parc Wern, Bethel (trysorydd); neu Myfanwy Jones, (ysgrifennydd).

CLWB Y MAMAU — Daeth tymor y 18

clwb i ben eleni gyda Helfa Drysor â char. Roedd yn noson lwyddiannus iawn, yn darfod gyda phryd mewn basged ym Mhlas Tan Dinas, Dinas Dinlle. Enillwyd gan ddau gar, Ann, Enid, Joyce a Sian yn un, ac Olwen, Sulwen, Pat a Lorna yn y llall. Angela a Jean enillodd y 'booby'. Swyddogion newydd am y flwyddyn 1984-85: Llywydd, Grace Jones, 22 Bro Rhos; Is-lywydd, Beryl Jones, 29 Bro Rhos; Ysgrifennyddes, Sheila Lambrecht a Linda Ellis, 16 Cremlyn. Llongyfarchiadau i David Ifer Jones, Awel y Grug a Dilys ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Yn Gelli Llanddeiniolen
Mae buwch na fu ei bath
Buwch ffrisian raenus ydyw
Sy'n gweld yn well na chath.
Mae hon yn gweld bwganod
Pan fydd y lloer yn llawn
A'r rheiny ar wal y beudy
Yn ôl yr hanes gawn.
Ryw noson roedd hi'n clwyfo
A dyna ddechrau strach,
Bu Les a Robin druan
Drwy'r nos heb weld llo bach.
Ac yna yn y bore
Rhoi cymorth iddi wnaed,
Rhoi rhaff am ganol Robin
A hithau ar ei thraed.
Ond wir, fe deimlodd Malan
Ei choesau'n methu dal
Disgynnodd ar ei hochor,
Pen Robin aeth i'r wal.
Bu yno glec ofnadwy
Fel ergyd gwn 12 'Bore'
A Robin oedd yn teimlo
Fel petai ar y môr.
A Les yn dal i weiddi
"Tyn Robin," nerth ei wynt.
"Lo garw siŵr mae'n amlwg
Fod hwn yn werth can punt."
Mae'r llo mewn cartre newydd
Fe'i prynwyd ef gan Jôs,
Y llo wnaeth Les a Robin
Fod ar eu traed drwy'r nos.
Efallai y gwêl Malan
Lai o'r bwganod tal
Mae'r hyn a wêl hi bellach
Fydd Robin ar y wal.

DIOLCH A PHENBLWYDD HAPUS



Cyflwynwyd basgedaid o flodau gan blant Ysgol Bethel i Mrs M. Jones, 19 Cremlyn ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed. Bu Mrs Jones yn gofalu am yr ysgol am flynyddoedd lawer cyn iddi ymddeol.

CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR

COFIO'R ABERTH



Plant Dosbarth 4 Ysgol Bethel yn rhoi torch o flodau ar gofgolofn y pentref i gofio am y bechgyn a gollwyd yn ystod y glanio yn Normandi ddeugain mlynedd yn ôl.

CERDDOROL



Bu'r disgyblion canlynol o ddosbarthiadau 3 a 4, sef aelodau o Barti Recorder yr ysgol, yn llwyddiannus yn Arholiad Gradd 2, gydag anrhydedd i Bartion Recorder: Sonya Daimond, Joanne Griffith, Anwen Jones, Jennifer Jones, Helen Platt, Ceril Roberts, Ian Roberts, Kelvin Roberts, Lynn Roberts, Mared Sutherland, Awen Williams a Wena Williams. Bu Ian Roberts hefyd yn llwyddiannus mewn Arholiad Gradd 2 i unigolion ynghyd â Joanne Griffiths, Kelvin Roberts a Lynn Roberts a dderbynion dystysgrifau clod yn yr un arholiad. Cynhaliwyd yr Arholiadau dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod, Llundain. Miss Lowri P. Roberts fu'n dysgu'r plant.

LLUNIAU — PWYSIG

Mae dau lun gennyf sydd wedi eu cyhoeddi yn yr Eco yn ddiweddar. Yn anffodus, ni fedraf gofio enwau'r perchnogion. Mae un yn ffotograff o 4 cenhedlaeth (teulu'r ddiweddar Mrs Jane Foulkes, Hafod Olau). Y llun arall yw Special Constables Deiniolen Awst 1942. Cysylltwch â Tony Elliott, Golygydd Newyddion Pentrefi.

Am yswiriant ar gyfer eich car, tŷ,
busnes, bywyd neu unrhyw angen arall
cysylltwch â

Robin Jones a'i Gwmni

Ymgynghorwyr Yswiriant
a Morgeisi

Llys Alaw
18 Stad Eryri
Bethel

Ffôn
Y Felinheli 670140

Regent House
Y Sgwâr
Llanrwst

Ffôn
Llanrwst 641154

DYDDIADUR

GORFFENNAF:

2, **Llun:** DEINIOLLEN: Sefydliad y Merched - Arddangosfa Gwaith Llaw gan Mrs Mary Evans, Rhosgadfan. CWM-Y-GLO: Bingo'r Carnifal yn y Ganolfan am 7.00.

LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.

3, **Mawrth:** LLANBERIS: Taith Dirgel cangen Plaid Cymru.

CWM-Y-GLO: Disgo'r Carnifal i'r plant am 6.00.

4, **Mercher:** CWM-Y-GLO: Helfa Drysor y Carnifal.

5, **Iau:** CWM-Y-GLO: Cystadleuaeth Dartiau ym Ngwesty'r Snowdon.

6, **Gwener:** CWM-Y-GLO: Chwaraeon y Carnifal yn y Cae Chwarae am 6.30.

7, **Sadwrn:** CWM-Y-GLO: Y Carnifal am 2.00 a Disgo ym Mhlas Tan Dinas gyda'r nos.

PENISARWAUN: Triplau Ysgol Sul Eglwys Santes Helen a Chapel Bozra i'r Rhyl.

BETHEL: Trip Ysgol Sul Capel Cysegr i Butlin's Pwllheli.

LLANBERIS: Triplau Ysgolion Sul i'r Rhyl.

8-14 WYTHNOS GARNIFAL BETHEL.

8, **Sul:** BETHEL: Cymanfa Ganu'r Carnifal yng Nghapel y Cysegr.

9, **Llun:** LLANBERIS: Gyrfa Chwist y St. John's yn y Ganolfan am 7.30.

10-15 - WYTHNOS GARNIFAL PENISARWAUN.

10, **Mawrth:** LLANBERIS: Cyfarfod Cyhoeddus Blynnyddol y Clwb Pêl-droed yn Angorfa am 7.30.

DEINIOLLEN: Clwb Elidir.

11-14: WYTHNOS GARNIFAL DEINIOLLEN.

11, **Mercher:** DEINIOLLEN: Cyngerdd a Choron Julie yn Frenhines y Carnifal.

12, **Iau:** DEINIOLLEN: Mabolgampau'r

Carnifal a'r Majorettes.

13, **Gwener:** LLANBERIS: Te yr Henoed.

DEINIOLLEN: Disgo'r Carnifal i'r Plant yn lard yr Ysgol Feithrin am 6.30. Bingo i'r oedolion yn Ystafell y Seindorf am 7.30.

14, **Sadwrn:** DEINIOLLEN: Y Carnifal. PENISARWAUN: Y Carnifal.

15-21: WYTHNOS GARNIFAL LLANBERIS.

15, **Sul:** LLANBERIS: 'Noson o Gân' yng Nghapel Nant Padarn am 8.00.

16, **Llun:** LLANBERIS: Gyrfa Chwist y Carnifal yn y Ganolfan am 7.30.

Cystadleuaeth Pwl yng Nghlwb y Lleng Brydeinig am 8.00.

17, **Mawrth:** YR ARDAL: Yr ysgolion yn cau am wyliu'r haf.

LLANBERIS: Mabolgampau'r Carnifal yn Nôl y Goeden am 5.45.

18, **Mercher:** LLANBERIS: Disgo'r Carnifal yn y Ganolfan. Plant Iau 6.00-7.30. Plant Hŷn 8.00-10.30.

Cystadleuaeth Dartiau yng Ngwesty'r Dolbadarn am 8.00.

19, **Iau:** PENISARWAUN: Gwibdaith Clwb yr Heulwen i'r Bermo.

DEINIOLLEN: Gwibdaith Clwb Elidir i Landudno.

LLANBERIS: Cystadleuaeth Pêl-droed 5-bob-ochr a phêl-rwyd 5-bob-ochr yn Nôl y Goeden am 6.00.

20, **Gwener:** LLANBERIS: Bingo'r Carnifal yn y Ganolfan am 7.30.

21, **Sadwrn:** PENISARWAUN: Noson Gymdeithasol i'r Pentrefwyr mewn Gwesty lleol.

LLANBERIS: Y Carnifal am 12.30. Ras yr Wyddfa am 3.30.

27, **Gwener:** LLANBERIS: Te yr Henoed.

DYDDIADAU I'W COFIO

Awst 2 - Sioe Gogledd Cymru ym Methel.

Awst 4-12 - Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Llanbedr Pont Steffan.

Awst 10 ac 11: Treialon Cŵn Defaid Betws Garmon yng Nghae Ystrad Isaf.

DRAMA GOMISIWN YR EISTEDDFOD

Fedwrch chi feddwl am awdur o Gymro yn derbyn gwobr arbennig am y gyfrol orau o storïau byr a gyhoeddwyd mewn unrhyw iaith? Dyw'r peth ddim wedi digwydd eto, ond dyna beth mae Elfyn Jenkins, awdur drama gomisiwn Eisteddfod Genedlaethol 1984 yn ei broffwydo. Haward Price, athro coleg ac awdur, yw'r cymeriad yn y ddrama sy'n cyflawni'r gamp ac fe'i gwelwn yn paratoui fynd i Lundain i dderbyn ei wobwr. Ond, o fewn llai nag wythnos, fe ddigwydd tri pheth ac ar y cyntaf nid yw'r dyfodol yn ymddangos mor ddisglair ag y tybiai. Dyma ddrama ddiddorol a chyffrous.

Y drydedd ddrama mewn trioleg yw'r ddrama gomisiwn, a'r tair ag iddynt gefndir llenyddol yn yr ystyr

mai dramâu am lenorion ydynt. Daeth y gyntaf o'r tair, 'Byw mewn Eilfyd' yn fuddugol yng nghystadleuaeth drama deledu'r BBC yn 1968. Yr ail ddrama oedd 'Ceidwad fy Chwær'.

Yn enedigol o Gorris, Machynlleth, mae'r awdur ar hyn o bryd yn un o is-olygyddion Geiriadur Prifysgol Cymru. Ef hefyd oedd awdur y ddrama deledu 'Tipyn o Steil' ac mae hefyd yn un o awduron y gyfres boblogaidd 'Hendre Fawr'. Mae'n dal cysylltiad agos â Theatr Felinfach, yn llywydd y Gymdeithas Ddrama Gymraeg yno, ac yn un o sefydlwyr Gweithdy Radio Theatr Felinfach sy'n ysgrifennu a recordio dramâu ar gyfer ysbytai a chartrefi'r henoed. Y mae'n briod a chanddo fab a merch.

Busnes newydd ym

Mro'r Eco...

EMYR JONES

PLYMAR
PEIRIANNYDD

GWRESOGI

GWAITH

INSIWLEIDDIO

44 Glanffynnon

LLANRUG

Caernarfon.

3513



**I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...**

**Osmond
W. Shaw**


DEINIOLLEN

Ffôn:

LLANBERIS 870545

Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

CROESAIR GORFFENNAF/AWST



AR DRAWS:

1. Y nawfed o'r flwyddyn (3,4)
8. Capel ..., Tryweryn (5)
9. Enw'r bachgen sy'n nai (3)
10. "... y llawr" (3)
11. Cymylog (3)
13. Bath (3)
16. Cartref yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1980 (6,3)
17. "... gobaith Cymru" (3)
18. Dim ond dau oedd yn yr un y sonia T.R.H. amdani (3)
23. Ffrwyth y dderwen (3)
24. "Prynu ..." (Kate Roberts) (3)
25. Offer dinistriol (5)
26. Diacon

I LAWR:

2. Culfor (4)
3. Ynys ger Aberdaron (4)
4. "Yn ... i ti Gymru" (3)
5. Pwyslais ar sillaf (4)
6. Stryd (y) swnllyd Kate Roberts? (4)
7. Ble mae'r plant yn mynd yn 1. Ar Draws? (2,2,1,1,5)
9. Glöyn byw (3,3,2,3)
12. Gŵr modryb (5)
13. Ymgasglu (5)
14. Urddas, mawredd (5)

15. Gwywo (5)

19. Genau (4)

20. Gwerthfawr (4)

21. Chwant (4)

22. Ffwrn galch (4)

23. Hogyn (3)

Un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

Anfonwch eich cynigion i Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug. Bydd gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

ATEBION CROESAIR MEHEFIN

Ar draws: 1. Pagan, 5. Ysgub, 8. Emrys, 9. Coron, 10. Wedyn, 11. Fiola, 12. To, 13. Daionus, 17. Chwe, 18. Iach, 20. Naid hir, 24. Rhu, 26. Rownd, 27. Yr haf, 28. Isder, 29. Arian, 30. Gi bach, 31. Di waith.

I lawr: 1. Picfforch, 2. Gardd Eden, 3. Nenfwd, 4. Priodi, 5. Yswain, 6. Gyda, 7. Bondo, 14. Aed, 15. Oni, 16. Sigledig, 19. Chwefror, 21. Iâr fach, 22. Hawlio (y cliw oedd "mynnu"), 23. Rwdins, 24. Rhwysg, 25. Ahab.

ENILLYDD: Tudwen Jones, 18 Rhodfa Belmont, Bangor.

CWMNI YSWIRIANT Y PRUDENTIAL CYF.

Y Cwmni Yswiriant sydd wedi bod yn rhoi gwasanaeth i bobol y fro ers tros 100 mlynedd

Dyma restr o'r goruchwylwyr yn y gwahanol bentrefi o'r fro:

LLANRUG, WAUNFAWR,
CEUNANT, TAN-Y-COED
a BETWS GARMON

GARETH JONES

Glyn Ceris, Waunfawr.
(Ffôn Waunfawr 392)

LLANBERIS, NANT PERIS,
CWM-Y-GLO, BRYNREFAIL
a DINORWIG

WILLIAM ROBERTS,

Hyfrydle Road, Capel Coch,
Llanberis (870471)

DEINIOLLEN, PENISARWAUN,
SEION, LLANDDEINIOLLEN,
TREGARTH, M. LLANDEGAI

JOHN R. JONES

Clarke Terrace, Ffordd Llanberis,
Caernarfon (4734)

RHOWCH GANIAD I'R 'DYN O'R PRW'
YNG LŷN Â'CH

HOLL ANGHENION YSWIRIANT

GWASANAETH AR
EICH AELWYD

Prudential

CHWARAEON

GEMAU ANGHYFFREDIN! GÊM GRICED UCHEL

Tybed ai dyma'r gêm griced uchaf a chwaraewyd erioed yng Nghymru? Flwyddyn yn ôl, sefydlwyd tîm criced Dyffryn Peris, ac yn dilyn dechrau addawol aeth y tîm i godi eu golygon ac anelu'n uwch! Penderfynwyd ar y syniad uchel-ael o chwarae criced mewn mannau anghyffredin yn dilyn noson gymdeithasol yn y 'Glyntwrog', Llanrug. Fore trannoeth roedd y tîm ar eu hynt – yn chwilio am lain addas i fowlio a batio arni – ar un o fynyddoedd Eryri.

Cafwyd tîm hanesyddol o enwogion i chwarae'n eu herbyn, a Dyffryn Peris gafodd y frainc o agor y batio. Ar ôl naw pelawd gynhyrfus, roedd y sgôr yn sefyll ar 40 rhediad am un wiced. Yn anffodus, oherwydd maesu gwan gan y gwrthwynebwyr, a'r ffaith fod taro pedair yn weddol hawdd (roedd clogwyn o bobtu i'r llain!), bu'n rhaid ei galw'n gêm gyfartal – roedd y peli i gyd wedi eu colli.

Diolch i Gareth Roberts am adroddiad manwl a llun o'r gêm.

Mae'r *Eco* yn gwrthod datgelu ble'n hollol y mae'r llain a ddangosir yn y llun, rhag ofn i dimau eraill fentro yno i chwarae a difetha'r wiced! Gyda llaw, os oes rhai ohonoch yn gricedwyr o'r iawn ryw, efallai y gwelwch luniau o rai eraill o gemau annisgwyl y tîm hwn yn *Wisden Cricketer's Monthly*. Yn y cyfamsr, mae'r tîm yn chwilio am wrthwynebwyr ar gyfer gêm anghyffredin arall – a mwy o beli os gwelwch yn dda!



S. Tensing yn bowlio i fyny'r allt a batiwr Dyffryn Peris yn chwarae'n amddiffynnol iawn. Sylwch ar y maeswyr wedi eu gosod mewn safleoedd ymosodol.

RAS HEDFAN a RHEDEG

Yn ystod penwythnos y 23ain a'r 24ain o Fehefin bu dau dim yn cystadlu mewn ras anghyffredin iawn – ras a ddiwedda'i yn Llanberis. Y ddau dim oedd Heddlu Greater Manchester a Chymdeithas Genedlaethol Atal Creulondeb i Blant (NSPCC). Bwriad y ras oedd dringo neu redeg i ben y tri chopu uchaf yn yr Alban, Lloegr a Chymru, a defnyddio hofrennydd i hedfan o un mynydd i'r llall. Roedd y record am y daith o Fort William (Ben Nevis) i Scafell ac ymlaen i Lanberis a'r Wyddfa yn cael ei dal gan dim o Grŵp 'Vauxhall Motors', mewn amser o 13 awr a 43 munud. Roedd y ddau dim yn y ras fis Mehefin yn gobeithio torri'r record.

Y bwriad tu ôl i'r ras oedd codi arian i Gronfa NSPCC, ac yr oedd y ddau dim wedi eu noddi gan wahanol gwmnïau – e.e., Barratt, yr adeiladwyr tai, a Reebok, y gwneuthurwyr dilladau ac esgidiau rhedeg. £5,000 oedd y targed, ond roedd ymhell dros £5,500 erbyn i'r timau gychwyn ar eu taith.

Yn dilyn y ras roedd cinio dathlu 100 mlwyddiant yr NSPCC, yn cael

ei gynnal yng Ngwesty'r Padarn Lake, Llanberis. Roedd yn werth dathlu hefyd: yn ogystal â chasglu swm da o arian, torrwyd y record am y ras – gyda thîm heddlu'n cwblhau'r daith mewn 8 awr a 22 munud. Roedd tîm yr NSPCC dair awr yn arafach, ond roeddynt hwythau hefyd yn falch o dorri'r hen record.



Glanio'n y niwl a'r glaw mân ar gae pêl-droed Llanberis.

HWYLFORDIO AR LYN PADARN



Cynhaliwyd Regatta Hwylfordio ar Lyn Padarn ar Sadwrn, Mehefin 23ain. Un ar bymtheg yn unig o gystadleuwyr fentrodd yno – nifer siomedig iawn yn ôl y trefnydd, Mr L. Griffiths, Dolafon, Llanberis. Dywedodd fod cyn lleied o ddiddordeb wedi bod yn y cystadlu fel na fydd yn trefnu Regatta arall y flwyddyn nesaf.

Yr enillwyr eleni oedd – 1af. Dai Orrells, Rhosneigr – Pencampwr Iau Cymru; 2il, Ron Price, Y Fyddin; 3ydd, Richard Davies, Gaerwen. Yn yr adran iau, bechgyn, dau frawd o Lanberis – David a

Mathew Griffiths oedd yn fuddugol, ac i ferched iau, yr enillydd oedd Pauline Orrells, Rhosneigr.

YSGRIFENNYDD I GLWB PÊL-DROED LLANRUG

cysyllter â
D. Arfon Jones
Ffôn: Caernarfon 4271



Tîm yr NSPCC.



Tîm buddugol yr heddlu.

LLWYDDIANT LLANRUG



Aelodau tîm snwcer Llanrug a enillodd Gwpan a Phencampwriaeth Cynghair Bangor a'r Cylch.